Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
32/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
24/03/2021

# Adolygiad o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i'r gwaith

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-153-1

Teitl: Adolygiad o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i'r gwaith

Awdur: Arad Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Ymchwil Arad (2021) *Adolygiad o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant neu wrth ddychwelyd i'r gwaith*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 32/2021.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/adolygiad-o-gymorth-gofal-plant-i-rieni-mewn-hyfforddiant-ac-addysg

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Roisin O'Brien
Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: TrafodGofalPlant@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr Termau .....2
Crynodeb Gweithredol .....3
1. Cyflwyniad .....7
2. Addysg Bellach .....12
3. Addysg Uwch .....19
4. Cyflogadwyedd .....24
5. Safbwyntiau Rhieni .....31
6. Casgliadau ac argymhellion .....34
Atodiad 1: Siart Llif o'r cyllid gofal plant sydd ar gael .....42
Atodiad 2: Ffynonellau cymorth i fyfyrwyr a rhieni mewn hyfforddiant neu wrth ddychwelyd i'r gwaith .....43
Atodiad 3: Methodoleg .....46
Atodiad 4: Canllawiau Holi .....50
Atodiad 5: Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer cynghorwyr PaCE a gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch .....56

**Rhestr Termau**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| C-CAS | Coronafeirws – Cynllun Cymorth Gofal Plant |
| CCG | Grant Gofal Plant |
| CfW | Cymunedau am Waith |
| CfW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| EMA | Lwfans Cynhaliaeth Addysg |
| ESOL | Saesneg i siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| FCF | Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn |
| FEI | Sefydliadau Addysg Bellach |
| FHE | Addysg Uwch a Phellach |
| FPN | Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen |
| HEI | Sefydliadau Addysg Uwch |
| HMRC | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| PLA | Lwfans Dysgu i Rieni |
| SFW | Cyllid Myfyrwyr Cymru |
| WGLG (FE) | Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) |

## Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau adolygiad o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i'r gwaith. Nod yr adolygiad yw ceisio deall pa fath o gymorth sydd ar gael; pa fylchau mewn cymorth sydd, os o gwbl; p'un a yw'r cymorth sydd ar gael yn ddigonol er mwyn cael gwared â rhwystrau rhag addysg a gwaith ar gyfer y rhieni hyn, a pha newidiadau, os o gwbl, fyddai eu hangen er mwyn lleihau'r rhwystrau i rieni rhag mynd i addysg, hyfforddiant, neu geisio dychwelyd i'r gwaith.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan Ymchwil Arad gan ddefnyddio ymchwil ddesg, cyfweliadau gydag arweinwyr cymorth a rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru, a chyfweliadau gyda chynrychiolwyr o sefydliadau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch, a gweinyddwyr rhaglenni cyflogaeth.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynnig Gofal Plant wedi'i anelu at rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cynnig presennol, ac eithrio rhieni sy'n gwneud prentisiaeth, yn berthnasol i rieni sydd mewn hyfforddiant neu addysg, neu'r rhieni sy'n chwilio neu'n ceisio dychwelyd i'r gwaith.

### Canfyddiadau

Mae darpariaeth yn bodoli ar gyfer rhieni mewn addysg a hyfforddiant, yn bennaf drwy:

- Y Gronfa Ariannol wrth Gefn: dyma gronfa ar sail disgresiwn a reolir gan sefydliadau addysg bellach unigol, ond a gaiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi'i hanelu at ddysgwyr sy'n profi caledi ariannol, a gall gynnwys cymorth gyda chostau gofal plant. Mae'r Gronfa hon yn hyblyg, a gellir ei haddasu yn ôl anghenion a chyd-destun lleol.
- Y Grant Gofal Plant: mae'r grant hwn ar gyfer rhieni sydd ar gwrs addysg uwch, a chaiff ei weinyddu gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae cynlluniau ar gael i gefnogi rhieni i fynd i'r byd gwaith, ac ymhlith y cynlluniau mwyaf nodedig mae:

- Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): dyma brosiect dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'n gweithredu mewn awdurdodau lleol sydd y tu allan i'r

hen glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Prosiect yn darparu cymorth gofal plant i rieni sydd mewn hyfforddiant neu'n chwilio am waith, mewn sefyllfaoedd lle mai gofal plant yw eu prif rwystr. Mae PaCE yn ceisio cefnogi rhieni rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith, a rhieni economaidd anweithgar dros 25 oed.

- Cymunedau am Waith: dyma brosiect dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Phrif Gyrff Darparu, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'n gweithredu yn hen ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae Cymunedau am Waith yn ceisio cynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant, ac oedolion sy'n economaidd anweithgar ac oedolion sy'n ddi-waith yn hirdymor sydd â rhwystrau cymhleth rhag cyflogaeth. Mae'r gefnogaeth yn gallu talu costau gofal plant, er enghraifft wrth fynd i gyfweliad neu hyfforddiant/profiad gwaith.
- Y Gronfa Cymorth Hyblyg: cymorth ariannol i bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra i'w helpu i gymryd rhan mewn gweithgarwch i'w symud yn agosach at y farchnad swyddi, a all gynnwys cymorth ariannol ar gyfer costau gofal plant. Cronfa yn ôl disgresiwn yw hwn, a weinyddir gan Ganolfannau Gwaith.

Mae mecanweithiau cymorth eraill yn cynnwys Dechrau'n Deg a chynlluniau cyflogadwyedd rhanbarthol llai.

Er bod ystod o raglenni a ffynonellau ariannu, mae grwpiau'n dal i fodoli sydd o bosib yn colli allan ar gymorth neu nad ydynt yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan gynlluniau, i'r graddau bod hyn yn eu rhwystro rhag mynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys: myfyrwyr ôl-raddedig; myfyrwyr gofal iechyd; cartrefi dau riant lle mae un yn gweithio (er bod enillion y rhiant arall yn isel); rhieni â mwy nag un plentyn; grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli fel cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; dysgwyr anabl; ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Yn ogystal â chostau gofal plant, mae heriau eraill sy'n creu rhwystrau i rieni hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys cymhlethdod a hyd rai o'r prosesau ymgeisio; trothwyon a meini prawf cymhwysedd cymhleth ar gyfer rhai o'r cynlluniau; diffyg hyder rhieni; diffyg ymgysylltiad ymhlith rhai rhieni â chynlluniau sydd ar gael; diffyg gofal plant addas neu hyblyg; a diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'i hamlder, yn enwedig mewn rhai ardaloedd gwledig.

**Casgliadau ac argymhellion**

Dylai cymorth gofal plant hyblyg a chynhwysfawr fod yn rhan hanfodol o fecanweithiau cymorth, er mwyn caniatáu i rieni gael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae cynlluniau'n bodoli sy'n darparu cymorth gofal plant i rieni sydd mewn addysg, hyfforddiant, neu sydd ar fin mynd i fyd gwaith. Serch hynny, mae bylchau yn y cynlluniau hyn, ynghyd â heriau ychwanegol sy'n creu rhwystrau i rieni.

Mae angen lleihau cymhlethdod cynlluniau cymorth gofal plant a gofynion cymhwysedd, Dylid adolygu'r dulliau cyfathrebu â grwpiau targed, er mwyn sicrhau eglurder a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.

Nid argymhellir y dylid ailgynllunio'r Cynnig Gofal Plant i fod yn addas i rieni mewn hyfforddiant, addysg ac sydd ar fin mynd i fyd gwaith, ond yn hytrach, dylid mynd i'r afael â'r bylchau mewn cymorth drwy adolygu cwmpas y rhaglenni presennol, a chreu cysylltiadau gwell rhyngddynt.

**Argymhellion:**

Dylai Llywodraeth Cymru:

- gydweithio â rhanddeiliaid ym maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i sicrhau bod gwybodaeth fanwl a chlir am fynediad a chymhwysedd i bob ffynhonnell o gymorth ariannol ar gyfer gofal plant, gan gynnwys ar lefel ehangach ledled y Deyrnas Unedig.
- gweithio gyda rhanddeiliaid ym maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i archwilio opsiynau ar gyfer prif ffrydio meini prawf cymhwysedd, trothwyon ar sail profion modd, cyfyngiadau ariannu a dulliau cymorth.
- gweithio gyda phartneriaid i symleiddio systemau ymgeisio i bob rhaglen yn ymwneud â gofal plant, gan gyfeirio'n benodol at y Grant Gofal Plant.
- cydweithio gyda sefydliadau addysg a Chyllid Myfyrwyr Cymru i adolygu a fyddai modd cael gwared ar y cyfyngiadau uchafswm cymorth ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf am ofal plant.
- archwilio opsiynau i ddarparu cymorth gofal plant ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig drwy'r strwythurau Grant Gofal Plant presennol.
- anelu rhagor o gymorth gofal plant at geiswyr lloches, yn enwedig y rhai sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Gellid gwneud

hyn drwy raglenni presennol fel y Gronfa Ariannol wrth Gefn, a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE).

- gweithio gyda rhanddeiliaid priodol i ailasesu trothwyon ar gyfer cymorth gofal plant, a sicrhau bod gan y rhai sydd ychydig dros y trothwy gyfle i gael mynediad at gymorth gofal plant.
- gweithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio gradd mewn gofal iechyd yn cael tegwch o ran cymorth gofal plant.
- gweithio gyda phartneriaid yn y maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i ddatblygu cymorth gofal plant hyblyg ar gyfer grwpiau eraill fel myfyrwyr a gwirfoddolwyr rhan amser neu sy'n dysgu o bell.
- sicrhau bod systemau monitro a gwerthuso yn gadarn ac yn caniatáu ar gyfer dadansoddi enillion ar fuddsoddiad
- archwilio modelau ar gyfer y dyfodol i ddisodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd, sy'n caniatáu ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn cymorth sy'n adlewyrchu costau gofal plant yn ddigonol.

## 1. Cyflwyniad

*Nodau ac amcanion yr adolygiad*

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i'r gwaith. Nod yr adolygiad yw ceisio deall pa fath o gymorth sydd ar gael; pa fylchau mewn cymorth sydd, os o gwbl; p'un a yw'r cymorth sydd ar gael yn ddigonol er mwyn cael gwared â rhwystrau rhag addysg a gwaith ar gyfer y rhieni hyn.

1.2 Mae'r cwestiynau ymchwil a ofynnwyd fel rhan o'r adolygiad wedi'u nodi isod.

- I ba raddau mae'r cymorth presennol ar gyfer y rhai mewn addysg neu wrth ddychwelyd i'r gwaith yn cael gwared â gofal plant fel rhwystr?
- Pa mor fuddiol yw'r cymorth sydd ar gael ar gyfer gofal plant i rieni sydd mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i'r gwaith?
- Beth yw gwerth ariannol, a ffynonellau ariannu, y cymorth presennol sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i'r gwaith?
- Beth yw'r problemau penodol y mae rhieni sy'n astudio/ceisio dychwelyd i'r gwaith yn eu hwynebu? E.e. ai cost yw'r unig/prif rwystr?
- Oes mathau o fyfyrwyr / rhieni sy'n cael cymorth arbennig o dda neu sydd dan anfantais neilltuol o ran cymorth gofal plant?
- Pa newidiadau, os o gwbl, fyddai eu hangen i leihau'r rhwystrau i rieni sydd mewn, neu sy'n dymuno bod mewn, addysg neu hyfforddiant, neu geisio dychwelyd i'r gwaith? Er enghraifft, newid i ddarpariaethau presennol.
- Pe bai'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei ymestyn i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu sy'n ceisio dychwelyd i'r gwaith, pa ryngweithiadau neu ddyblygiadau fyddai'n digwydd rhwng rhaglenni sy'n bodoli eisoes?

*Cyd-destun ar gyfer cymorth ariannol gofal plant*

1.3 Mae'r adran hon yn cynnig cyd-destun a throsolwg o'r cymorth gofal plant presennol sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i'r gwaith ac sy'n ceisio gofal plant yng Nghymru.

1.4 Mae addysg a hyfforddiant yn rhagfynegwyr pwysig o lwyddiant gyrfaol rhieni, eu tebygolrwydd o ddychwelyd i'r gwaith, eu math o gyflogaeth, a'u henillion[1]. Amlygir pwysigrwydd blaenoriaethu blynyddoedd cyntaf bywyd plentyn, 'y blynyddoedd cynnar', a cheisio ei gwneud yn haws i deuluoedd sy'n gweithio i gael swydd ac aros yn gyflogedig fel rhan o strategaeth *Ffyniant i Bawb* Llywodraeth Cymru.[2] Mae strategaethau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yn cefnogi darpariaeth gofal plant ac addysg gynnar yng Nghymru, ac maent yn cynnwys y rhaglenni a nodir isod.

*Y Cynnig Gofal Plant*

1.5 Mae hawl gan bob plentyn i addysg gynnar (Meithrin Cyfnod Sylfaen) o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, ac mae pob awdurdod lleol yn darparu o leiaf 10 awr yr wythnos. Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn darparu cyfuniad o ofal plant ac addysg gynnar i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio am hyd at 30 awr yr wythnos – sy'n cynnwys o leiaf 10 awr o addysg gynnar a hyd at 20 awr o ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth. Nodwyd ymrwymiad i ddarparu gofal plant a ariennir i rieni sy'n gweithio yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016 – 2021, ac ehangwyd arno yn *Ffyniant i Bawb*:

> *Byddwn yn darparu 30 awr o addysg a gofal plant yn rhad ac am ddim i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 blwydd oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, gan gynnig y ddarpariaeth mewn ffordd sy'n gweithio i rieni ac i blant.*[3]

Mae adroddiad blynyddol 2019 yn egluro bod Llywodraeth Cymru '*wedi rhoi ein cynnig gofal plant ar waith flwyddyn yn gynnar.*'[4]

1.6 Mae'r Cynnig yn diffinio 'rhieni sy'n gweithio' fel rhieni sy'n gyflogedig neu sy'n hunangyflogedig. Mae'n rhaid i'r ddau riant mewn teulu dau riant, a'r unig riant

[1] Harkness, S. Borkowska, M. Pelikh, A. (2019) Employment pathways and occupational change after childbirth. Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth.
[2] Llywodraeth Cymru (2017) *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[3] Ibid., t. 23.
[4] Llywodraeth Cymru (2019) *Adroddiad Blynyddol 2019, Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a gwyrdd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.6 ac 11.

mewn teulu un rhiant, fod yn gweithio er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Ar hyn o bryd, nid yw rhieni sydd ar ymyl y farchnad swyddi (wrthi'n chwilio am waith) na'r rhai sydd mewn addysg a hyfforddiant (heblaw am brentisiaethau) yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

1.7 Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cael gwared â holl neu ran o'r rhwystrau costau gofal plant ar gyfer rhieni cymwys, gan wneud y syniad o weithio yn opsiwn mwy fforddiadwy i lawer o rieni. Serch hynny, mae'n bosib y bydd angen i'r rhieni hyn gael mynediad at ofal plant ffurfiol a thalu amdano pan maent yn y broses o feithrin sgiliau a phrofiadau cyn cael cyflogaeth. Felly, mae'n bosib y bydd costau a mynediad at ofal plant yn dal i fod yn rhwystr i rieni sy'n dymuno cael mynediad at addysg uwch neu bellach, ynghyd â gweithgarwch arall sy'n angenrheidiol er mwyn cael cyfleoedd cyflogaeth.

*Meithrin y Cyfnod Sylfaen*

1.8 Ochr yn ochr â gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth, mae'r Cynnig Gofal Plant 30 awr yn cynnwys darpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynnig hwn sydd ar gael i bawb yn cynnig o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar a ariennir gan y llywodraeth i holl blant Cymru o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, yn ystod amser y tymor. Cynigir addysg ran amser i blant mewn meithrinfa sy'n rhan o ysgol a gynhelir, neu mewn lleoliadau gofal plant sydd wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol, er enghraifft meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae, neu ofal plant sesiynol. Mae'r rhaniad rhwng oriau Meithrin y Cyfnod Sylfaen ac oriau gofal plant a ariennir sy'n cyfrif at 30 awr y Cynnig yn amrywio ledled Cymru, ac mae'n dibynnu ar faint o oriau Meithrin y Cyfnod Sylfaen a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

*Dechrau'n Deg*

1.9 Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd wedi'i ariannu'n llawn, a gynigir i rieni cymwys plant 2 a 3 oed am ddwy awr a hanner y diwrnod, 5 diwrnod yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn. Mae rhaglen Dechrau'n Deg wedi'i thargedu'n ddaearyddol, ac yn canolbwyntio ar yr ardaloedd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn annog pobl i ddefnyddio hawliadau'r rhaglen (y mae "gofal plant" yn un ohonynt), ac yn osgoi unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â rhaglenni ymyrryd sy'n targedu unigolion.

Mae gwerthusiadau annibynnol wedi dangos bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau teuluoedd, ac mae wedi newid bywydau rhai teuluoedd oedd ag angen uchel. Mae angen i ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg sicrhau cysylltiadau agos â'r cyfnod sylfaen i sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n effeithiol rhwng Dechrau'n Deg a darparwyr y cyfnod sylfaen.

*Cymorth gofal plant mewn rhaglenni cyflogadwyedd*

1.10 Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru[5] yn disgrifio pa mor hanfodol a phwysig mae gofal plant da o ansawdd wrth alluogi person i weithio:

> *Mae'n hanfodol sicrhau bod pobl yn gallu cael gofal plant a gofal cymdeithasol i oedolion sydd o safon uchel, ynghyd â chludiant cyhoeddus effeithlon a fforddiadwy, gofal iechyd, a gofal iechyd galwedigaethol yn arbennig; os yw'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n dda, maent yn golygu y gall pobl gymryd swyddi, yn hytrach na'u bod yn creu rhwystrau rhag cael gwaith. Bydd dod o hyd i gyfleoedd i bobl sy'n gweddu i'w galluoedd a'u dyheadau yn eu helpu i ffynnu ac i symud ymlaen yn eu gwaith. '*

1.11 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn pwysleisio eu hymrwymiad i gefnogi'r cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), sy'n galluogi rhieni i gael cymorth ariannol gyda gofal plant er mwyn cael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae rhagor o wybodaeth am gynllun PaCE ar gael yn adran 4.

## Trosolwg o'r fethodoleg

1.12 Dyma'r ymchwil a lywiodd yr adolygiad hwn:

- Mapio'r cymorth sydd ar gael i rieni yng Nghymru:
  - Ymchwil ddesg yn mapio'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gofal plant yng Nghymru (a gweddill gwledydd Prydain, os yw'n berthnasol).
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol:
  - Cyfweliadau gydag arweinwyr cymorth a rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth ychwanegol am raglenni sy'n cefnogi'r grŵp targed.
- Ymchwil gyd-destunol gyda rhieni:

[5] Llywodraeth Cymru (2018) *Cynllun Cyflogadwyedd* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t.10.

  - Ymchwil ychwanegol yn defnyddio fforymau ar-lein i archwilio materion a godwyd gan rieni yn y grŵp targed.
- Cyfweliadau ffôn gyda chynrychiolwyr sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch a gweinyddwyr rhaglenni cyflogaeth:
  - Ymgynghoriadau i ddeall pa gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, yr heriau y mae'r grwpiau targed yn eu hwynebu, a'r effaith y mae gofal plant wedi'i chael.

Mae manylion pellach am y fethodoleg ar gael yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

## 2. Addysg Bellach

*Cyllid*

2.1 Mae pob Sefydliad Addysg Bellach yn defnyddio Cronfa Ariannol wrth Gefn Llywodraeth Cymru fel prif ffynhonnell gymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n wynebu problemau gofal plant. Dyma gronfa yn ôl disgresiwn a reolir gan Sefydliadau Addysg Bellach unigol, ac mae wedi'i thargedu at ddysgwyr sy'n profi caledi ariannol. Mae'r gronfa'n cefnogi costau gofal plant, trafnidiaeth, deunyddiau dysgu neu rwystrau eraill rhag astudio.

2.2 Roedd y saith cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach y cyfwelwyd â nhw yn gadarnhaol am y Gronfa Ariannol wrth Gefn, ei hyblygrwydd o ran anghenion lleol a chyd-destun ar gyfer gofal plant. Defnyddir y cyllid i gefnogi pob myfyriwr cymwys sydd ag anghenion gofal plant. Mae'n rhaid i bob sefydliad baratoi polisi Cronfa Ariannol wrth Gefn sy'n nodi'r meini prawf a'r cymorth gofal plant sydd ar gael. Dyrennir y cyllid ar sail y cyntaf i'r felin, a rhoddir blaenoriaeth mewn rhai sefydliadau i ddysgwyr sy'n dychwelyd ac yn datblygu ac unig rieni, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

2.3 Yn gyffredinol, mae'r cyllid yn talu 85 y cant o'r costau gofal plant, ond adroddodd un cynrychiolydd coleg eu bod yn talu 90 y cant o'r costau. Amlinellodd sawl cynrychiolydd pe bai rhieni'n gymwys, gall Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) / Y Lwfans Cynhaliaeth Addysg dalu'r 15 y cant o wahaniaeth ynghyd â chronfeydd mewnol eraill y colegau, er enghraifft cymorth ychwanegol i dalu am wisg ysgol i blant a thrafnidiaeth am ddim.

2.4 Mae pob grant y Gronfa Ariannol wrth Gefn ar sail profion modd - mae uchafswm incwm cartref yn un maen prawf a nodir, ac mae'n rhaid iddo fod o dan gyfyngiadau grant Dysgu Llywodraeth Cymru a Lwfans Cynhaliaeth Addysg (£23,078 a £18,370 yn y drefn honno) - a hefyd mae'n rhaid cadarnhau bod y myfyriwr yn llawn amser (tri diwrnod yr wythnos yw hyn yn achos myfyrwyr Sefydliadau Addysg Bellach) er mwyn cael cymorth.

2.5 Adroddodd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr bod eu sefydliadau'n pennu uchafswm taliad dyddiol yn seiliedig ar gostau gofal plant cyfartalog eu dalgylch. Er enghraifft, mae un Sefydliad Addysg Bellach yn rhoi cyfyngiad o £35 y diwrnod, a chyfeiriodd un arall at £32 y diwrnod. Adroddodd sawl un arall fod ganddynt ymagwedd fwy

hyblyg, a'u bod yn talu 85 y cant o gostau pa bynnag ddarparwr gofal plant a ddefnyddir. Mae colegau'n talu darparwyr gofal plant yn uniongyrchol ar ran y myfyrwyr – proses a gaiff ei hystyried gan y cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach y cyfwelwyd â nhw fel un *'syml'* ac *'effeithlon'*.

2.6 Adroddodd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr y colegau eu bod yn darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr sy'n agored i niwed.[6] Mewn rhai achosion, adroddodd y colegau eu bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, a bod dysgwyr yr ystyrir eu bod yn agored i niwed yn cael eu nodi'n gynnar yn y broses ymgeisio. Dysgwyr eraill y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yw'r rhai a gaiff eu cyfeirio o raglenni sgiliau a chyflogadwyedd (gweler pennod 4). Mae rhai myfyrwyr yn gofyn am gymorth gan staff colegau er mwyn dod o hyd i dystiolaeth ar gyfer eu ceisiadau cyllid gofal plant. Yn aml, cânt eu cyfeirio at adrannau cymorth dysgu neu dimau llesiant y colegau perthnasol, sy'n gallu darparu cymorth pwrpasol.

> *'Mae hyder yn rhwystr enfawr, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi, maen nhw wedi'u datgysylltu'n llwyr o'r byd addysg a chyflogwyr, ac yn nerfus i ailddechrau. Mae'r Gronfa Ariannol wrth Gefn yn becyn cymorth rydyn ni'n ei ddarparu er mwyn rhoi dyheadau i'r bobl yma a'u codi o dlodi.'* **Cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach**

*Mynediad*

2.7 Nid ystyriwyd bod mynediad at ofal plant yn broblem sylweddol gan y cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach y cyfwelwyd â nhw. Adroddodd sawl coleg bod ganddyn nhw gyfleusterau gofal plant ar y safle (roedd rhain yn cael eu rheoli gan y colegau perthnasol yn wreiddiol, ond maent wedi'u contractio allan bellach), a meithrinfeydd preifat eraill yn agos at gampysau. Yn achos un cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach, roedd bod â meithrinfa ar y campws yn ffactor allweddol o ran *'lleddfu pryder'* ar gyfer rhai dysgwyr, gan ychwanegu bod rhai dysgwyr yn dal i fwydo eu babanod o'r fron diolch i'r opsiwn hwn.

[6] Gall dysgwyr difreintiedig a dysgwyr sy'n agored i niwed gynnwys dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig; dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt; plant sydd wedi bod mewn gofal; gofalwyr ifanc; dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ac eraill. Gweler hefyd tudalen 3 [Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais]

2.8 Serch hynny, bu i sawl cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach gydnabod bod mynediad yn gallu bod yn broblem i rai myfyrwyr sy'n rhieni os ydynt yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gyfeirio at gostau ac argaeledd fel problem, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Caiff cyllid y Gronfa Ariannol wrth Gefn ei ddefnyddio i gefnogi gyda chostau yn yr achosion hyn hefyd, ond ystyrir bod mynediad yn fwy o broblem na chost.

*Rhwystrau*

2.9 Er gwaetha'r cyfleoedd a ddarperir i fyfyrwyr sy'n rhieni drwy'r Gronfa Ariannol wrth Gefn a chymorth ychwanegol i ddysgwyr sy'n agored i niwed, nodwyd nifer o rwystrau a bylchau. Nododd y cynrychiolwyr y cyfwelwyd â nhw bod cyllid yn dal i allu bod yn rhwystr os na chaiff 100 y cant o'r costau eu talu yn ystod y tymor. Roedd pedwar o'r saith cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach y cyfwelwyd â nhw yn teimlo bod diffyg gofal plant cofleidio neu hyblyg y tu allan i oriau ysgolion a meithrinfeydd yn fwlch allweddol. Does dim cyllid gofal plant i fyfyrwyr yn ystod gwyliau'r coleg (ac ysgol), sy'n tynnu cyfleoedd posib oddi arnynt i gael swyddi rhan amser i gefnogi eu hastudiaethau. Yn ogystal, eglurodd cynrychiolwyr nad oedd gofal plant ar y penwythnos, neu ofal plant ad hoc achlysurol i gefnogi eu hastudiaethau, fel arfer ar gael gan ddarparwyr gofal plant fel arfer, a bod hyn yn golygu bod myfyrwyr yn dibynnu ar eu teuluoedd neu'n gorfod talu am ddiwrnodau ychwanegol eu hunain.

2.10 Er y cefnogwyd egwyddor profion modd, nododd sawl cynrychiolydd fod trothwyon yn golygu bod rhai teuluoedd a oedd yn agos at y ffin yn cael eu hatal rhag mynd i addysg. Yn ôl y rhan fwyaf o gynrychiolwyr, gall talu'r 15% ychwanegol y tu hwnt i gyllid y Gronfa Ariannol wrth Gefn fod yn rhwystr i fyfyrwyr os nad oes cymorth pellach ar gael gan y coleg. Ymhlith y bylchau eraill a nodwyd gan gynrychiolwyr mae'r ffaith y bydd cyllid y Gronfa Ariannol wrth Gefn ond yn talu am un plentyn (ond y bydd yn talu am efeilliaid), felly gall rhieni sydd â dau blentyn oedran cyn ysgol gael anhawster â chostau gofal plant. Nododd un cynrychiolydd y byddan nhw'n gwneud eithriadau i hyn, er enghraifft dioddefwyr trais.

2.11 Mae llawer o sefydliadau yn rhoi cyfyngiad ar faint y gellir ei hawlio ar gyfer elfen gofal plant y Gronfa Ariannol wrth Gefn, yn gysylltiedig â chyfraddau'r farchnad leol ar gyfer ffioedd gofal plant. Er yr ystyriwyd bod hon yn system deg, rhannwyd enghreifftiau o fyfyrwyr sy'n teithio o'r tu allan i'r ardal leol, ac yn defnyddio gofal

plant sy'n agos i'w cartref. Adroddwyd eu bod yn talu mwy na'r uchafswm ar gyfer gofal plant, gan arwain yn achlysurol at broblemau ariannol ar gyfer yr unigolion hyn.

2.12 Fel y nodwyd uchod, mae Sefydliadau Addysg Bellach wedi ceisio lleihau rhwystrau gyda phrosesau ymgeisio, gyda staff yn helpu rhai myfyrwyr i gwblhau ceisiadau am gyllid. Serch hynny, cydnabu sawl cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach fod diffyg ymwybyddiaeth o ba wasanaethau a chymorth gofal plant sydd ar gael i ddysgwyr. Mae rhagor o heriau pan fydd sefyllfaoedd dysgwyr yn gymhleth. Eglurodd cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach ei bod yn bosib bod rhai rhieni sydd â diffyg hunanhyder neu broblemau iechyd meddwl yn cael cefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol a'u bod '*yn dueddol o fod â meddylfryd lle nad ydyn nhw am i weithwyr proffesiynol neu bobl eraill wybod am eu busnes'* neu fod yn well ganddyn nhw beidio â datgelu gwybodaeth ariannol neu wybodaeth arall a allai beryglu gwarchodaeth neu gynhaliaeth plentyn.

2.13 Mynegwyd safbwyntiau tebyg yn ymwneud â dull cyfathrebu a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i grwpiau fel cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a dysgwyr anabl sy'n rhieni. Adroddodd cynrychiolydd coleg arall na all ceiswyr lloches wneud cais i'r Gronfa Ariannol wrth Gefn, gan nodi bod *'dysgwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn astudio yn y coleg am chwe awr y diwrnod, a byddai rhai'n elwa o gael gofal plant, ond nid oes dim byd y gall y Gronfa Ariannol wrth Gefn ei wneud i'w helpu.'*

2.14 Adroddwyd bod rhwystrau ychwanegol wedi bod o ganlyniad i COVID-19 a chyfnodau clo yn ystod 2020. Adroddir bod angen cymorth ychwanegol ar rieni sy'n agored i niwed, gan fod rhai teuluoedd yn methu â chael mynediad at y rhaglen prydau ysgol am ddim. Mae trafnidiaeth wedi bod yn broblem barhaus i fyfyrwyr sy'n rhieni ac sy'n cael cyllid o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn, sy'n wynebu problemau wrth gael mynediad at ofal plant os yw cyfleusterau gofal plant a chlybiau ysgol wedi cau neu os oes llai o drafnidiaeth gyhoeddus. Adroddodd rhai cynrychiolwyr eu bod yn hyblyg â myfyrwyr yr oedd angen cymorth arnyn nhw e.e. amser ychwanegol i orffen modiwlau.

*Effaith*

2.15 Rhannodd arweinwyr rhaglenni Addysg Bellach ac Uwch Llywodraeth Cymru enghreifftiau lle'r oedd cyfranogwyr wedi datblygu sgiliau, cymwysterau, a symud i gyflogaeth. Adroddodd arweinwyr rhaglenni fod y cymorth gofal plant hefyd yn gallu gweithredu fel sbardun i fyfyrwyr posib, a chynorthwyo ymgyrchoedd recriwtio colegau i ddenu myfyrwyr. Cytunodd cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach gyda'r safbwynt hwn, ac roedd pob un yn gadarnhaol am effaith cyllid y Gronfa Ariannol wrth Gefn, gyda sawl un yn adrodd y byddai'n '*amhosib*' i rieni cymwys astudio'n llawn amser hebddi.

2.16 Yn achos y cynrychiolwyr hyn, mae'r Gronfa Ariannol wrth Gefn yn ffurfio rhan o becyn cymorth unigol y coleg i ddarpar fyfyrwyr y byddai gofal plant yn rhwystr rhag ymgysylltu heb gymorth ariannol. Fel y nododd un cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach, *'mae'n wirioneddol allweddol i'n cynnig o anogaeth i grwpiau targed yn ôl i mewn i addysg.'* Amlygodd sawl cynrychiolydd coleg addysg bellach fanteision ar gyfer plant y myfyrwyr sy'n rhieni, a dywedodd un, *'Mae'n rhoi mwy o sefydlogrwydd a chyfleoedd iddyn nhw gymdeithasu ar oedran cynnar – os yw eu rhieni'n gallu cyrraedd lefel 3 neu'n uwch, mae'n llawer llai tebygol y byddan nhw'n tyfu i fyny mewn tlodi.'*

> *'Mae'r Gronfa Ariannol wrth Gefn yn declyn cymorth effeithiol, mae'n hyblyg ac yn llenwi bwlch. Mae'n ymateb i gostau gofal plant a chyflenwad lleol. Mae'n llai biwrocrataidd hefyd. Mae'r sefydliadau addysg bellach yn gallu bwrw ati, mae'n rhoi llawer o ryddid i ni.'* **Cynrychiolydd Addysg Bellach**

*Data / monitro*

2.17 Serch hynny, nododd arweinwyr rhaglenni Addysg Bellach bod bylchau'n dal i fod yn y ddealltwriaeth o effaith elfen gofal plant y Gronfa Ariannol wrth Gefn. Hyd yma, nid oes ymchwil wedi bod i gyfraniad cymorth gofal plant y Gronfa Ariannol wrth Gefn o ran gwneud gwahaniaeth i fyfyrwyr sy'n rhieni. Cytunodd cynrychiolwyr Addysg Bellach nad oes llawer o waith monitro y tu hwnt i'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ganddynt e.e. y nifer sy'n defnyddio'r gronfa, y nifer sy'n gorffen y cwrs, a'r nifer sy'n mynd ymlaen at gyflogaeth, addysg bellach a hyfforddiant. Yn ogystal, mae sefydliadau Addysg Bellach yn defnyddio

astudiaethau achos i gyfleu llwybrau unigol a'r cymorth a ddarperir, ac i hyrwyddo cyrsiau i ddarpar fyfyrwyr eraill.

*Cymorth yn y dyfodol*

2.18 Barn gyffredinol y cynrychiolwyr Addysg Bellach oedd bod y ddarpariaeth gyllid bresennol gan y Gronfa Ariannol wrth Gefn yn gweithio'n effeithiol, ond y dylai fod rhagor o hyblygrwydd i fynd i'r afael â'r heriau a'r bylchau yn y cyllid a amlinellwyd. Roedd awgrymiadau ynghylch ychwanegu at gymorth y Gronfa Ariannol wrth Gefn o 85 y cant i 100 y cant mewn rhai achosion, er enghraifft ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, pobl sy'n dychwelyd i addysg i ddatblygu i gyflogaeth, a theuluoedd incwm isel i sicrhau yr eir i'r afael â rhwystrau ariannol rhag ymgysylltu.

2.19 Cefnogwyd y dull mwy hyblyg a syml hwn gan arweinwyr rhaglenni Addysg Bellach ac Uwch, a amlygodd fod y math hwn o gefnogaeth yn hanfodol er mwyn galluogi unigolion i ddatblygu ymhellach ar hyd y llwybr i gyflogaeth drwy ennill cymwysterau e.e. o lefel 2 i 3 er mwyn mynd i'r afael â galw cyflogwyr am sgiliau uwch mewn sectorau fel gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol. Wrth i unigolion ddatblygu, nodwyd bod angen mwy o amser ar gyfer astudio a dysgu hunangyfeiriedig, ac felly bod mwy o angen am fwy o ofal plant ac yn ôl oriau hyblyg.

2.20 Gallai ymagwedd fwy hyblyg alluogi mwy o gymorth ar gyfer yr achosion hynny lle nad yw incwm y cartref lawer uwch na throthwy'r prawf modd, ac felly bydd yn cefnogi myfyrwyr yr adroddwyd eu bod yn cael anhawster yn talu costau gofal plant, sy'n cyfyngu ar eu dewisiadau i ail-ymgysylltu ag addysg a datblygu sgiliau.

2.21 Roedd hefyd yn bwysig i gynrychiolwyr Addysg Bellach bod cyllid Cronfa Ariannol wrth Gefn yn cael ei gynnal yn y dyfodol, a bod unrhyw gymorth gofal plant yn cydnabod y llwybrau sy'n bodoli rhwng addysg bellach a rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau. Nodon nhw hefyd y dylai unrhyw gymorth cynnwys gofal plant a ariennir sydd wedi'i dargedu at ddysgwyr sy'n agored i niwed ac at grwpiau sy'n dymuno cael cymwysterau newydd i gefnogi eu dychweliad i'r gwaith.

2.22 Croesawodd sawl cynrychiolydd Addysg Bellach ymagwedd genedlaethol yr astudiaeth, gan awgrymu rhannu arfer da yn y dyfodol ar gyfer ymgysylltu a chefnogi rhieni drwy addysg bellach ac i gyflogaeth. Roedd rhai cynrychiolwyr Addysg Bellach o'r farn y byddai adolygiad o'r dulliau cyfathrebu ynghylch sut caiff

cyllid y Gronfa Ariannol wrth Gefn ei chyfleu i ddysgwyr mwy agored i niwed a grwpiau fel ffoaduriaid, yn mynd i'r afael â bylchau mewn negeseuon, ac yn hyrwyddo cymorth gofal plant yn well i'r grwpiau targed hyn.

## 3. Addysg Uwch

*Darpariaeth*

3.1 Yn gyffredinol, mae gan Sefydliadau Addysg Uwch dimau arbenigol sy'n cefnogi grwpiau myfyrwyr targed sydd ag ystod o broblemau o ran cael mynediad at, ac ariannu cyrsiau Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys gofal plant. Gall y grwpiau targed hyn gynnwys ffoaduriaid, gofalwyr ifanc neu ofalwyr, rhieni, a phobl o gefndiroedd difreintiedig ac sy'n agored i niwed.

3.2 Mae'r timau'n cynghori darpar fyfyrwyr yn ystod diwrnodau agored a drwy ohebiaeth e-bost ynghylch y ffynonellau ariannu amrywiol sydd ar gael iddyn nhw, ynghyd â chyngor ar gymhwysedd a chydweithio gydag unigolion eraill a allai hefyd eu cefnogi. Er enghraifft, roedd gan dîm un Sefydliad Addysg Uwch unigolion sy'n arbenigo mewn myfyrwyr gofal iechyd a Bwrsariaeth y GIG, ac roedd aelod arall o'r tîm yn arbenigo mewn Credyd Cynhwysol, y system fudd-daliadau, a myfyrwyr rhan amser. Rhan o'u rôl yw cefnogi rhieni sy'n cael anhawster yn cael mynediad at gymorth ar gyfer gofal plant, ynghyd â goresgyn rhwystrau eraill fel hyder i ail-ymgysylltu. Felly, mae cyngor'r yn fugeiliol ac yn canolbwyntio ar gyllid.

*Cyllid*

3.3 Darperir cyllid drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru drwy'r Grant Gofal Plant Addysg Uwch. Nododd cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch er bod modd i'r cyllid godi i hyd at 85 y cant o gostau gofal plant, anaml y bydd myfyrwyr yn cael y swm llawn. Mae eu gwaith yn hyrwyddo'r cynllun yn ceisio codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr. Serch hynny, amlygodd sawl cynrychiolydd gymhlethdod meini prawf y cyllid, a'r heriau yn ei hyrwyddo o ganlyniad i hyn. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn talu'r Grant Gofal Plant yn uniongyrchol i'r myfyriwr, ond yn Lloegr caiff ei dalu'n uniongyrchol i'r darparwr gofal plant. Felly mae gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru gyfrifoldeb i dalu'r darparwyr, ac mae hyn yn gallu achosi problemau ar adegau, sydd wedi'u hamlygu yn adran 3.12.

3.4 Mae'r cyllid ar sail profion modd, ac mae ystod o feini prawf, gan gynnwys nifer y plant dibynnol; cost y gofal plant; nifer yr wythnosau y defnyddir y gofal plant, a lefel incwm y rhieni (os yw'n berthnasol). Amlygwyd hefyd nad yw myfyrwyr yn gymwys am y Grant os ydyn nhw neu eu partner yn hawlio elfen gofal plant Credydau Treth

Gwaith, Credyd Cynhwysol, Gofal Plant Di-dreth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu Fwrsariaeth y GIG (a Lwfans Gofal Plant GIG Cymru). Serch hynny, mae modd i unigolion gael mynediad at y cymorth drwy'r Lwfans Dysgu i Rieni, sy'n gallu talu rhai o'r costau ychwanegol sydd gan fyfyrwyr sydd â phlant, ac mae hwnnw ar sail profion modd. Unwaith eto, nododd cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch gymhlethdod y meini prawf a'r gwahanol ffrydiau ariannu a oedd ar gael, ac mae hyn wedi'i amlygu ymhellach yn y siart llif yn atodiad 1.

> *'Oni bai eich bod chi'n rhiant sengl, neu nad yw eich partner yn gweithio, dydych chi ddim yn gymwys am lawer o gymorth. Mae'n gallu bod yn anodd i rai myfyrwyr ddeall ei fod ar sail profion modd hefyd, a'i fod yn dibynnu ar eich costau byw a'ch incwm.'*
>
> **Cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch**

3.5 Cafodd y broses ymgeisio am y cyllid Grant Gofal Plant ei disgrifio gan y rhan fwyaf o gynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch fel '*proses hirfaith'*, ac roedd rhai enghreifftiau o oedi gweinyddol, yn enwedig gyda darparwyr gofal plant llai o faint y mae'r gwaith gweinyddol yn gallu bod yn feichus iddynt. Roedd sylwadau gan gynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnwys '*rydyn ni'n ymwybodol bod ymgeisio am ofal plant yn drafferthus i fyfyrwyr sy'n rhieni'* ac *'mae'r broses ymgeisio ar gyfer y Grant Gofal Plant yn llethol'.*

3.6 Ynghyd â'r Grant Gofal Plant a'r Lwfans Dysgu i Rieni, adroddodd sawl cynrychiolydd am ddefnydd o gronfeydd caledi'r sefydliad i roi cymorth pellach i'r rhai â phroblemau gofal plant a phryderon ariannol eraill. Nod y cronfeydd hyn yw cynorthwyo myfyrwyr sy'n profi anawsterau ariannol annisgwyl, a thaliadau un-tro ydy'r rhain fel arfer. Amlinellodd un cynrychiolydd o Sefydliadau Addysg Uwch bod uchafswm o £3,500, sydd hefyd ar sail profion modd ac sy'n edrych ar incwm y cartref, ac mae gofyn i'r myfyrwyr ymddangos o flaen panel sydd wedi'i gynnull i glywed yr achos. Mae Sefydliad Addysg Uwch arall yn cynnig ysgoloriaethau a bwrsariaethau amrywiol, sy'n cynnwys bwrsariaeth gofal plant. Gall myfyrwyr wneud cais am y fwrsariaeth yn flynyddol, a'r uchafswm yw £500.

> *'Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddechrau cwrs yn gwybod bod modd iddyn nhw dalu'r costau, mae modd i ni helpu gyda rhywfaint o gyllid brys, ond ni ddylai hyn fod yr unig gymorth ar gyfer eu gofal plant.'* **Cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch**

*Rhwystrau*

3.7 Mae cymhlethdod yr ariannu wedi creu ystod o heriau a rhwystrau ar gyfer rhieni sy'n dymuno cael mynediad at addysg uwch. Amlygodd sawl cynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch nad oes modd i fyfyrwyr gael mynediad at y Grant Gofal Plant ac elfen gofal plant y credydau treth gwaith, sy'n achosi dryswch a rhwystrau ychwanegol rhag cael mynediad at gymorth gofal plant. Grŵp arall yr adroddwyd eu bod yn colli allan ar ofal plant oedd myfyrwyr sydd â mwy na dau o blant. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch yn ystyried bod y trothwy incwm wedi'i osod yn rhy isel a'i fod yn gweithio yn erbyn y rhieni hynny sy'n dymuno astudio os yw eu partneriaid yn gweithio. Bwlch arall posib yw'r dysgwyr hynny sy'n gweithio—ond ddim digon o oriau i fod yn gymwys am y Cynnig—ac sy'n dysgu'n rhan amser (roedd hyn hefyd yn wir yn achos myfyrwyr Sefydliadau Addysg Bellach).

3.8 Amlygwyd ôl-raddedigion fel grŵp myfyrwyr sy'n colli allan ar gymorth, gan eu bod yn cael cyfraniad at gostau astudio, ond dim grant dibyniaeth ychwanegol ar gyfer gofal plant. Maen nhw'n gallu cael hyd at £17,000 o gyllid ar gyfer cwrs meistr, a £25,700 am ddoethuriaeth, ond mae disgwyl i fyfyrwyr dalu am eu gofal plant gyda'r arian hwn, sy'n gallu bod yn straen ar deuluoedd. Nododd sawl cynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch fod myfyrwyr PhD yn ystyried eu bod yn gweithio gan eu bod yn cael cyflog gan y Brifysgol bob wythnos, ond gan mai steipend di-dreth yw eu 'cyflog' mewn gwirionedd, dydyn nhw ddim yn gymwys am fwy o gyllid i gefnogi anghenion gofal plant. Felly, mae'n rhaid iddyn nhw weithio o gwmpas y PhD i gael digon o arian i dalu am ofal plant.

3.9 Grŵp arall sy'n profi rhwystrau y cyfeiriwyd ato gan sawl cynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch yw myfyrwyr gofal iechyd. Mae'r GIG yn gosod cyfyngiad is ar y cymorth ariannol a roddir tuag at ofal plant na Chyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer myfyrwyr prifysgol. Ystyriwyd bod hyn yn cosbi myfyrwyr nyrsio yn eu blwyddyn olaf yn bennaf, o ran costau ac oherwydd patrwm gweithio eu swyddi, mae angen mwy o ofal plant hyblyg arnyn nhw, sy'n gallu bod yn ddrud. Roedd un cynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch yn teimlo bod hyn yn rhwystr posib i ddarpar fyfyrwyr nyrsio rhag mynd i'r proffesiwn.

3.10 Yn gyffredinol, ystyrir ei bod yn haws i fyfyrwyr sy'n rhieni sengl gael mynediad at ofal plant. Adroddodd pump o'r wyth cynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch y gall fod yn fwy cymhleth ar gyfer pobl sydd mewn perthynas, gan fod lwfans y dibynyddion ar sail profion modd, ac mae'n gallu bod yn anodd cael mynediad at gymorth os yw'r partner yn gweithio.

3.11 Roedd y rhwystrau mwy ymarferol a amlygwyd gan y rhan fwyaf o gynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch yn ymwneud ag amseru'r cyllid. Adroddir bod myfyrwyr sy'n rhieni yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle maen nhw'n gorfod trefnu pa ofal plant fydd ei angen arnyn nhw cyn iddyn nhw gael eu hamserlen brifysgol, ac weithiau, os ydyn nhw'n mynd trwy'r system glirio, cyn iddyn nhw gael lle yn y brifysgol. Fel y nododd un cynrychiolydd, *'dydy'r tirlun gofal plant ddim yn hyblyg iawn, mae angen i fyfyrwyr ymrwymo i ba ofal plant sydd ei eisiau arnyn nhw cyn iddyn nhw wybod beth yw eu hamserlen'.*

3.12 Adroddwyd bod darparwyr gofal plant, yn gyffredinol, yn gofyn am flaendal am fis o ofal, a gan fod myfyrwyr Sefydliadau Addysg Uwch yn talu darparwyr yn uniongyrchol, gallan nhw wynebu heriau os yw hyn cyn iddyn nhw gael eu grant. Mae hyn yn gallu gwaethygu pan fydd myfyrwyr sy'n rhieni yn ymgeiswyr drwy'r system glirio, neu'n cael cynnig hwyr ar gyfer eu cwrs, ac felly heb wneud cais am y grant eto. Mewn rhai achosion, mae gan Sefydliadau Addysg Uwch strwythurau ar waith i dalu darparwyr gofal plant yn uniongyrchol tan y ceir cyllid.

3.13 Cyfeiriwyd hefyd at oriau agor darparwyr gofal plant fel rhwystr i fyfyrwyr sy'n rhieni, un ai oherwydd eu horiau agor neu wyliau'r brifysgol. Dim ond yn ystod y tymor mae'r cyllid, ac mae'n rhaid i unigolion ariannu eu darpariaeth eu hunain yn ystod y gwyliau, sy'n gallu effeithio ar eu cyfleoedd i chwilio am gyflogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

*Effaith*

3.14 Mae cymorth ariannol ar gyfer gofal plant yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi rhieni mewn addysg uwch. Roedd pob cynrychiolydd y cyfwelwyd â nhw yn credu bod y Grant Gofal Plant yn cael gwared â rhwystr enfawr rhag cael mynediad at Addysg Uwch, yn enwedig i rieni sengl. Heb gymorth gofal plant, dychmygir y byddai'r grwpiau hyn wedi'i chael yn anodd iawn mynd i addysg, a byddai

prifysgolion wedi gweld cwymp cyfatebol yn nifer y myfyrwyr. Ar lafar, nododd sawl cynrychiolydd hefyd fod myfyrwyr sy'n rhieni yn llai tebygol o adael y cwrs yn gynnar os oes ganddyn nhw lefel dda o gymorth o'r dechrau un. Serch hynny, gyda chostau gofal plant yn cynyddu o hyd, nodon nhw y byddai'n her talu'r ffioedd hyn yn y dyfodol heb gynnydd cyfatebol yn y cyllid.

> *'Mae llawer o rieni sengl wedi cael y Grant Gofal Plant gan Gyllid Myfyrwyr Cymru neu'r GIG. Galla i ddychmygu y byddai wedi bod yn amhosib iddyn nhw ddechrau astudio heb y cymorth hwn.'* **Cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch**

## 4. Cyflogadwyedd

4.1 Mae'n bosib bod rhieni y mae arnynt angen cymorth gofal plant wrth hyfforddi neu edrych am waith, yn gymwys am gymorth gofal plant gan ddau brif gynllun, sef Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a Chymunedau am Waith, a rhai cynlluniau mwy lleol, fel y dangosir yn y siart llif yn atodiad 1. Y ddau grŵp targed ar gyfer cymorth cyllid gofal plant – a chymorth sgiliau a chyflogadwyedd ehangach – yw pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a rhieni sy'n economaidd anweithgar sy'n 25 oed neu'n hŷn ac sy'n wynebu ystod o rwystrau rhag sicrhau cyflogaeth. Ystyrir gofal plant fel rhan hanfodol o'r cynnig cyfannol ar gyfer y grwpiau targed hyn, ac mae'n gysylltiedig â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru gan gynnwys y blynyddoedd cynnar a sgiliau a chyflogaeth.

*Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)*

4.2 Ers ei lansiad yn 2015, mae'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) wedi bod yn darparu cymorth gofal plant i rieni wrth iddyn nhw hyfforddi neu chwilio am waith, pan mai gofal plant yw eu prif rwystr. Fe'i hariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac fe'i cynlluniwyd yn wreiddiol i dargedu cymorth y tu allan i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf[7]. Gwasanaethir ardaloedd blaenorol Cymunedau yn Gyntaf gan Gymunedau am Waith (manylion isod).

4.3 Darperir PaCE drwy Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Rieni, a gyflogir drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n gweithio mewn cymunedau i ymgysylltu â rhieni a'u cefnogi. Mae rhieni'n ymgysylltu'n wirfoddol gyda'r prosiect ac mae Ymgynghorwyr yn darparu cymorth sydd wedi'i deilwra i anghenion rhieni, sydd fel arfer yn cynnwys: arweiniad ar fudd-daliadau; cyngor ar wneud cais am hyfforddiant a swyddi; datrysiadau i oresgyn rhwystrau gofal plant, mentora a darparu cymorth ar gyfer cael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy.

4.4 Gall Ymgynghorwyr PaCE ddefnyddio cyllid pan fydd cyfranogwr yn mynd i hyfforddiant a/neu gyfleoedd gwirfoddoli, ond mae'n rhaid iddyn nhw ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill yn gyntaf (felly gweithredu fel dewis olaf, er mwyn osgoi

[7] Cynhaliwyd Cymunedau yn Gyntaf o 2001 tan 2018, sef rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar gymunedau, ac a oedd yn cefnogi agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

dyblygu cymorth ariannol). Mae cyllid gofal plant PaCE ar gyfer rhieni y mae arnynt angen gofal plant wrth gael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth, ac fel arfer maen nhw'n gallu cynnig gofal plant wrth i'r rhieni fynd ar gwrs neu fynd i gyfle gwirfoddoli, mynd i sesiynau gydag Ymgynghorydd i edrych ar eu CV neu i chwilio am waith, a gall gefnogi yn yr wythnosau cyn cyflogaeth er mwyn caniatáu i'r plentyn neu'r plant gael amser i ymsefydlu ac addasu i'r lleoliad gofal plant. Gall yr Ymgynghorydd hefyd gael mynediad at y cyllid gofal plant i rieni yn ystod pedair wythnos gyntaf cyflogaeth os oes problem gyda thalu am ofal plant a fyddai'n peryglu gallu'r rhiant i aros mewn gwaith.

4.5 Yn ystod blynyddoedd cyntaf yr ymgyrch, roedd y galw am gymorth cyllid gofal plant yn isel. Serch hynny, ar ôl addasu'r broses ymgeisio, a gyda chynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r cynllun, mae galw wedi cynyddu, gan arwain at fwy o bwysau ar gyllidebau yn 18 mis olaf yr ymgyrch. Nid oes isafswm nac uchafswm i lefel y cymorth sydd ar gael, ond ystyrir pob cais gofal plant fesul achos, ac mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio ar waith a sicrhau bod y rhiant yn ymroddedig i'w daith i mewn neu'n agosach at y farchnad swyddi.

*Cymunedau am Waith*

4.6 Gwasanaeth cynghori yn y gymuned yw Cymunedau am Waith, a gaiff hefyd ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a'i chyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae ganddo gwmpas ehangach na PaCE, ac mae'n gweithio gyda phobl yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru – ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gynt – i gynyddu cyflogadwyedd pob oedolyn, felly pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac oedolion economaidd anweithgar ac sy'n ddi-waith yn hirdymor, neu sydd â rhwystrau cymhleth rhag cyflogaeth. Mae'n gallu helpu drwy gynnig cyngor gofal plant a chymorth ariannol i fynd i hyfforddiant, cyfweliadau gwaith, ac i ddechrau gweithio.

4.7 Mae'r cymorth ar gyfer rhieni sy'n profi gofal plant fel rhwystr fel arfer yn cynnwys cyngor a mentora, hyfforddiant, a mynediad at gronfa rwystrau sy'n gallu talu costau gofal plant a chostau eraill. Pot o arian yw hwn i'w wario ar ddillad newydd neu gostau teithio fel arfer, ond gallai hefyd dalu costau gofal plant wrth fynd i gyfweliad neu hyfforddiant/profiad gwaith, a'r costau gofal plant cychwynnol i ddechrau

gweithio. Darperir Cymunedau am Waith a Mwy ochr yn ochr â'r ddwy raglen hon, ac mae'n darparu cyngor a chymorth cyflogaeth i bobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau am Waith, PaCE, neu raglenni rhanbarthol eraill ac sydd mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi. Er bod y rhain yn rhaglenni ar wahân, maen nhw'n gweithio ochr yn ochr, a byddai rhieni di-waith yn cael eu cyfeirio at y cynghorwyr sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u cymhwysedd.

*Ariannu arall*

4.8 Yn ogystal â PaCE a Chymunedau am Waith, mae modd darparu cymorth gofal plant drwy ffynonellau eraill. Mae unigolion sy'n chwilio am waith ymhlith y rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol i helpu gyda chostau byw. Os yw rhiant wedi derbyn cynnig swydd, mae cymorth gofal plant ar gael o dan Gredyd Cynhwysol am y mis cyn iddyn nhw ddechrau gweithio. Mae cymorth ariannol ar gyfer costau gofal plant hefyd ar gael i rieni cymwys sy'n cyflawni gweithgarwch i'w symud nhw'n agosach at y farchnad swyddi o dan y Gronfa Cymorth Hyblyg a gynigir gan ganolfannau gwaith. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn deall pwysigrwydd gofal plant fel galluogwr allweddol i weithio. Mae hefyd yn cydnabod sut mae gofal plant yn darparu cymorth i rieni, drwy ddileu gofal plant fel rhwystr rhag gweithio. Er mwyn i rieni fynd i gyflogaeth barhaus, bydd angen i lawer ohonynt ganfod a defnyddio gofal plant ffurfiol. Gellir rhoi cymorth ariannol mewn nifer o amgylchiadau, gan gynnwys, ymhlith eraill:

- Pan fydd rhiant yn mynd i hyfforddiant cymeradwy'r Adran Gwaith a Phensiynau
- Lle cytunwyd bod modd i riant gymryd rhan mewn Cyfnod Prawf Gwaith neu Brofiad Gwaith.
- Pan fydd rhiant yn mynd i gyfweliad Hyfforddwr Gwaith wedi'i drefnu yn y Ganolfan Byd Gwaith. Dim ond yn yr amgylchiadau eithriadol lle nad oedd modd trefnu'r cyfweliad ar adeg pan na fyddai'n rhaid talu costau gofal plant y mae hyn yn berthnasol
- Pan fydd rhiant yn mynd i gyfweliad gyda darparwr hyfforddiant neu gyflogwr
- Yn y cyfnod rhwng dechrau cyflogaeth (o leiaf 16 awr yr wythnos) a chael y cyflog cyntaf.

- Pan fydd rhiant yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos – hyd at £87.50 yr wythnos gydag un plentyn a £150 yr wythnos gyda dau blentyn neu fwy.

Bydd pob cais am y Gronfa Cymorth Hyblyg yn cael ei ystyried fesul achos. Serch hynny, os yw'r Hyfforddwr Gwaith wedi argymell gweithgaredd, neu'n cytuno y bydd gweithgaredd arfaethedig yn fanteisiol i symud rhiant yn agosach at y farchnad swyddi, yna bydd costau gofal plant rhesymol fel arfer yn cael eu talu gan y Gronfa Cymorth Hyblyg. Mae hefyd ar gael am gyfnod cyfyngedig ar ôl i riant ddechrau gweithio neu hunangyflogaeth.

4.9 Mae prosiectau cymorth cyflogadwyedd rhanbarthol sy'n cefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar a phobl ddi-waith. Er enghraifft, mae un rhaglen o'r fath, Pontydd i Waith 2[8], yn gweithredu ar draws pum ardal awdurdod lleol yn y de ddwyrain (y gorllewin a'r Cymoedd). Os yw rhiant wedi'i gefnogi gan y prosiectau hyn, ac y nodwyd gofal plant fel rhwystr, yna byddent yn cael eu cyfeirio at Gymunedau am Waith neu PaCE i gael cyllid os oedd angen gofal plant arnynt ar gyfer cyfweliad neu leoliad gwaith.

4.10 Prosiectau eraill a nodwyd gan gyfweleion oedd Ysbrydoli i Gyflawni[9] ac Ysbrydoli i Weithio[10] ar gyfer pobl o dan 25 oed, a Siwrne i Waith[11] ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn hirdymor ac sy'n economaidd anweithgar sy'n 25+ oed, a Sgiliau Gweithle[12] – sy'n cefnogi unigolion mewn cyflogaeth i uwchsgilio i gymhwyster lefel 1 a 2. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y prosiectau hyn i ddarparu cyllid am gymorth ychwanegol ar gyfer pobl, a chwmpas i ddefnyddio'r cyllid hwn ar gyfer gofal plant pe bai angen.

[8] Taflen ffeithiau Pontydd i Waith 2.
[9] Taflen ffeithiau Ysbrydoli i Gyflawni.
[10] Taflen ffeithiau Ysbrydoli i Weithio.
[11] Taflen ffeithiau Taith i Waith.
[12] Tudalen Prosiect Sgiliau yn y Gwaith, Cyngor Dinas Casnewydd.

*Rhwystrau*

4.11 Ni wnaeth y deg unigolyn y cyfwelwyd â nhw o raglenni cymorth cyflogadwyedd godi'r mater o fynediad at y cymorth fel y cyfryw, o ran y gall y rhieni hynny sydd mewn cyswllt ag ymgynghorwyr y cynlluniau gael eu cefnogi gyda chostau gofal plant. Serch hynny, mae cyrraedd rhieni a darparu cymorth gyda gofal plant yn dibynnu ar raglenni'n gweithio'n dda gyda'i gilydd, ar rieni'n mynd i'r ganolfan waith neu'n hunangyfeirio, ac ar atgyfeiriadau addas yn cael eu gwneud. Cyfeiriodd tri chyfwelai at raglen Genesis Cymru[13], ac eglurodd eu bod o'r farn bod mwy o gymorth ar gael o'r blaen ar gyfer gofal plant e.e. cyllid i ddarparu crèche ar gyfer cyrsiau, cyfnod hirach o ofal plant wedi'i ariannu.

> *'Mae'n bosib bod bwlch yno, ond gan nad yw'r rhaglen wedi'i strwythuro tuag at gymorth gofal plant wrth ddysgu, dydyn ni ddim yn gwybod mewn gwirionedd, ac allwn ni ddim mesur hynny. Roedd Genesis yn rhaglen wych i helpu rhieni gyda hynny, ac roedd wir modd i ni fesur faint o bobl oedd angen y cymorth yna. Defnyddiwyd y rhaglen fel teclyn ymgysylltu ar gyfer y gymuned, a oedd yn ymgysylltu gyda mwy o rieni.'* **Cynrychiolydd rhaglen**

4.12 Mae ymwybyddiaeth o'r rhaglenni hyn wedi tyfu drwy waith timau lleol, ar lafar gwlad, y cyfryngau cymdeithasol a phrosesau ymgeisio sydd wedi'u gwneud yn fwy syml ac yn cysylltu â chynnydd mewn galw lleol. Mae rhaglenni penodol, fel PaCE, wedi gwneud gofal plant yn ganolog i'w cynnig i gyfranogwyr, ac wedi darparu cymorth dwys i gyfranogwyr sydd fwyaf pell o gyflogaeth, heb lefelau lleiafswm nac uchafswm o gymorth. Mae rhaglenni eraill wedi'u targedu'n fwy at ymyriadau byr a sydyn, gyda'r nod o wella sgiliau a chyflogadwyedd ac felly mae'r galw am ofal plant yn is.

> *'Mae PaCE yn ymwneud â throsglwyddo pobl i gyflogaeth felly mae'r cynnig gofal plant yn cynnig elfen ychwanegol hyblyg i'r rhaglen – mae hyn yn golygu bod continwwm o gymorth ar gyfer y grwpiau targed.'* ***Arweinydd rhaglen***

4.13 Mae'r rhwystrau allweddol eraill a nodwyd gan y rhai y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr adolygiad hwn yn cynnwys mynediad at ofal plant gydag adroddiadau am rai ardaloedd yng Nghymru, gan gynnwys rhannau o'r Cymoedd ac ardaloedd gwledig, lle mae diffyg gofal plant ar gael a gofal plant fforddiadwy. Nododd arweinwyr

[13] Rhaglenni Cymru gyfan oedd Genesis Cymru 2 (2008-2013) a Genesis Cymru (2005-2008) a ariannwyd gan Gronfa Cymdeithasol Ewrop gyda'r nod o gynyddu cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ymhlith grwpiau targed allweddol ac unig rieni benywaidd yn benodol.

rhaglenni cyflogadwyedd fod lefelau o gymorth ariannol a chymorth arall gyda gofal plant yn gallu amrywio rhwng rhaglenni ac ardaloedd, sy’n gallu cyfyngu ar gefnogaeth a chynnydd os yw’r cyfranogwyr yn symud cartref. Hyd yn oed pan fo mynediad at ofal plant ar gael, gall diffyg hyblygrwydd o ran cefnogi menywod sy’n gweithio yn yr economi sylfaenol gyda gwaith sifftiau neu dros dro, fod yn rhwystr. At hynny, wrth ymgysylltu â rhaglenni a chwilio am waith, mae diffyg gofal plant ad hoc ar gael ar gyfer cyfweliadau swyddi neu leoliadau gwaith. Mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus – unwaith eto yn bennaf mewn ardaloedd gwledig – hefyd yn gallu effeithio ar fynediad at ofal plant.

4.14 Gwnaeth dau arweinydd rhaglenni cyflogadwyedd sylw bod cael mynediad at ofal plant yn dal yn gallu bod yn broses ddryslyd, gyda llawer o gyfranogwyr rhaglenni wedi’u drysu am gostau, amserlenni ac ati i ddechrau (e.e. lle caiff costau eu cefnogi yn ystod y tymor yn unig i fyfyrwyr) ac argaeledd yn eu hardal leol. Gall hyn arwain at rwystrau ‘meddal’ e.e. hyder a ffydd yn y system, sy’n gallu arwain at grwpiau targed yn colli allan ar gefnogaeth bosib. Dangosir cymhlethdodau’r system gyfredol ymhellach yn y siart llif yn atodiad 1.

4.15 Er gwaetha cymorth rhaglen, mae costau gofal plant yn dal yn gallu bod yn rhwystr, yn enwedig ar gyfer y rhai sy’n chwilio am lwybrau i gyflogaeth. Adroddir bod rhieni’n cael anawsterau gyda materion fel costau gofal plant ymlaen llaw, ffioedd cofrestru a blaendaliadau cyn iddyn nhw gael eu cyflogau, yn enwedig os ydyn nhw’n colli eu budd-daliadau ar yr un pryd. Mae’r darlun yn arbennig o gymhleth mewn perthynas â rhieni hŷn sydd heb fod yn y farchnad swyddi am gyfnod hirach, ac sy’n wynebu heriau eraill heblaw am ofal plant, fel hyder, diffyg sgiliau cyfredol ac ymwybyddiaeth ddigidol. I lawer o gyfranogwyr rhaglenni, mae trosglwyddo i’r byd gwaith yn gallu bod yn broses hir, ac mae mynediad at ofal plant yn elfen allweddol i osgoi *‘ymyl dibyn’* ariannol lle mae unigolion yn symud i gyflogaeth neu gynllun hyfforddi arall ac nad ydynt yn cael grantiau neu gyflog yn syth.

> *‘Dydy rhywfaint o’r gofal plant sydd ar gael ddim yn ddigon hyblyg ar gyfer pobl sydd ar fin dychwelyd i’r byd gwaith neu bobl sydd mewn tlodi gwaith, sy’n gorfod gweithio ar benwythnosau neu sy’n astudio mewn dosbarthiadau nos. Yn yr un ffordd ag y mae’n rhaid i ddarpariaeth sgiliau fod yn hyblyg ar gyfer anghenion y cyfranogwr unigol, mae angen i ddarpariaeth gofal plant ymateb i hyn.’*
> **Arweinydd rhaglen**

4.16 Mae gwerthuso a monitro yn digwydd ar lefel rhaglen, ond nid oedd dim data na gwaith monitro ar ddefnydd o ofal plant a gwariant ar gael fesul cynllun.

*Effaith a chymorth yn y dyfodol*

4.17 Roedd y cyfweleion cyflogadwyedd yn cytuno er bod cyllid gofal plant yn bodoli ar gyfer rhieni sy’n dymuno dychwelyd i’r gwaith, byddai mwy o gymorth i rieni sy’n dymuno dechrau gweithio neu ddychwelyd i weithio yn cael ei groesawu. Mae heriau’n dal i fodoli o ran diffyg argaeledd gofal plant ad hoc er mwyn mynd i gyfweliadau a chyrsiau byr neu leoliadau, mynediad a thrafnidiaeth, a chostau gofal plant ymlaen llaw sy’n achosi anawsterau i rieni sy’n dechrau mewn cyflogaeth. Mae lefel y cymorth sydd ar gael yn amrywio’n ddaearyddol, ac roedd galwadau am fwy o gysondeb rhwng y lefel a’r math o gefnogaeth sydd ar gael yn ardaloedd Cymunedau am Waith a PaCE, a fyddai yn ei dro yn helpu’r cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth am y ddwy raglen.

4.18 Cefnogir y rhaglenni a amlinellir yn y bennod hon gan gyllid yr Undeb Ewropeaidd, ac mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i’w ddarparu tan fis Mehefin 2022. Codwyd cwestiynau gan gyfweleion ynghylch beth a ddaw yn lle’r rhaglenni hyn yn y dyfodol.

# 5. Safbwyntiau Rhieni

5.1 Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, doedd hi ddim yn addas cynnal cyfweliadau cynradd gyda rhieni. Fel dull amgen o gasglu tystiolaeth, cynhaliwyd ymchwil ansoddol ychwanegol, gan ddadansoddi ac archwilio materion a godwyd gan rieni mewn perthynas â gofal plant yn y grŵp targed drwy fforymau ar-lein, lle roedd trafodaethau tebyg eisoes wedi digwydd.

*Ymchwil gyd-destunol – safbwyntiau rhieni drwy fforymau trafod ar-lein*

5.2 Roedd y prif themâu a godwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'u profiadau, sefyllfaoedd personol, ac ymholiadau ynghylch sut gallai'r ffrydiau ariannu amrywiol newid yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol.

5.3 Roedd hyd bob edefyn yn amrywio o un i 16 neges, gyda gwahaniaethau bychain yn y llwyfannau a ddefnyddir a sut roedd rhieni'n dewis ymgysylltu â'i gilydd. Roedd defnyddwyr yn defnyddio'r llwyfannau i daflu syniadau a rhannu gwybodaeth, ac ar adegau byddai cynrychiolwyr swyddogol yn ateb cwestiynau gan ddefnyddwyr.

5.4 Nodwyd naw edefyn fel ymholiadau perthnasol yn ymwneud â grantiau a chyllid gofal plant sydd ar gael i rieni sy'n mynd i addysg bellach, addysg uwch neu sy'n dychwelyd i'r gwaith. Ymhlith y themâu allweddol a godwyd gan ddefnyddwyr roedd:

- Ymholiadau ynghylch pa gyllid a chymorth sydd ar gael i rieni plant ifanc wrth astudio graddau ar wahanol lefelau, gan gynnwys israddedig, ôl-raddedig a lefel PhD;
- Cwestiynau ynghylch bwrsariaethau amrywiol sydd ar gael ac a ydy'r rhain ar gael ar y cyd â ffynonellau ariannu eraill;
- Cwestiynau ynghylch Credyd Cynhwysol, credydau di-dreth, a sut gallai'r rhain ddibynnu ar incwm cartref.

5.5 Roedd rhyngweithiadau pellach gyda defnyddwyr yn cynnwys:

- Defnyddwyr eraill yn rhoi cyngor neu eu barn ar sefyllfa'r unigolyn perthnasol, yn seiliedig ar eu profiadau personol;
- Defnyddwyr yn cyfeirio eraill at wefannau neu wasanaethau allanol a allai eu helpu i ddeall ymhellach beth yw eu hanghenion neu'r cyllid sydd ar gael iddyn nhw;
- Cynrychiolwyr yn awgrymu dwy brif ymagwedd tuag at sut i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gyfleoedd ariannu i fyfyrwyr:

- Siarad gydag adrannau cymorth myfyrwyr mewn prifysgolion amrywiol;
- Awgrymu cysylltu'n breifat â chynrychiolwyr swyddogol cyfrifol gan fod asesiadau'n cael eu gwneud fesul achos;

5.6 Yr edefyn a oedd yn cynnig y mewnwelediad gorau o ran dealltwriaeth rhieni o'r cyllid a'r grantiau sydd ar gael iddyn nhw oedd edefyn o 16 neges a rannwyd ym mis Medi 2019. Sgwrs rhwng chwe defnyddiwr oedd hwn. Eglurodd y prif ddefnyddiwr eu bod wedi cael cadarnhad am le i wneud gradd gwaith cymdeithasol, gyda'r gobaith o dderbyn y 'grant gofal plant' i helpu gyda chostau gofal plant. Ers hynny, roedd hi wedi cael gwybod nad oedd hi'n gymwys am y grant gan ei fod ar sail profion modd. Mae'n gofyn i ddefnyddwyr eraill a ydyn nhw'n *'gwybod am unrhyw beth a allai fy helpu i oherwydd fel mae'n sefyll mae'n edrych fel y bydd yn rhaid i fi ildio fy lle ac rydw i'n torri fy nghalon gan fy mod i'n hedrych ymlaen cymaint i'r newid yma i fy ngyrfa.'*

5.7 Awgrymodd defnyddwyr eraill ystod o ddatrysiadau posib. Roedd y rhain yn cynnwys ail-gyfrifo unrhyw fudd-daliadau a gafwyd er mwyn deall yn llawn pa grantiau fyddai'r opsiwn gorau er mwyn cael y mwyaf o gymorth gyda gofal plant. Awgrymodd y defnyddwyr siarad gydag ymgynghorydd cyllid yn yr adran gwasanaethau myfyrwyr yn ei Phrifysgol, gan egluro *'weithiau mae pot cyllido ar gyfer yr union sefyllfa yma.'* Roedd yr opsiynau ariannu eraill a gafodd eu crybwyll gan ddefnyddwyr yn cynnwys Gofal Plant Di-Dreth, y Cynnig Gofal Plant, a'r posibilrwydd o weithio rhai nosweithiau bob wythnos i dalu'r costau gofal plant.

5.8 Mae'r ymchwil yn dangos bod chwiliadau gwybodaeth yn cael eu gwneud gan rieni unigol mewn perthynas â mynediad at ofal plant wrth astudio gradd ar wahanol lefelau. Roedd y prif themâu'n ymwneud â nodi'r gwahanol ffynonellau ariannu sydd ar gael, ac a ydynt yn ddibynnol ar incwm y cartref, budd-daliadau a dderbynnir a chredydau treth. Yn gyffredinol, roedd datrysiadau i ymholiadau'n cyfeirio at wefannau gwybodaeth allanol a gwasanaethau cymorth myfyrwyr, ynghyd â defnyddwyr yn rhannu eu profiadau a'u safbwyntiau eu hunain.

5.9 Dim ond nifer fach o drafodaethau fforwm perthnasol ddaeth yr ymchwil o hyd iddi. Serch hynny, roedd rhai themâu a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad arweiniad ar gyfer pwnc cyfweliad gyda gwasanaethau cymorth myfyrwyr. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y mathau o geisiadau gwybodaeth a gafwyd, pwy oedd yn gofyn

am y wybodaeth, a sut maen nhw’n ymateb, ynghyd â’u safbwyntiau ar gymorth defnyddiol arall oedd ar gael.

## 6. Casgliadau ac argymhellion

6.1 Er gwaethaf effaith gadarnhaol cymorth gofal plant a geir drwy elfen gofal plant y Gronfa Ariannol wrth Gefn ar gyfer dysgwyr Addysg Bellach, y Grant Gofal Plant ar gyfer dysgwyr Addysg Uwch ac ystod o raglenni cyflogadwyedd a sgiliau, mae'r ymchwil wedi dangos bod yna grwpiau sy'n colli allan ar gymorth yn dal i fod, ac felly'n colli cyfle i ddychwelyd at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

*Bylchau mewn cymorth ym maes Addysg Bellach ac Uwch*

6.2 Mewn addysg a hyfforddiant, mae'r grwpiau hyn yn cynnwys myfyrwyr ôl-raddedig; myfyrwyr rhan-amser, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel cymunedau lleiafrifoedd ethnig, dysgwyr anabl, a cheiswyr lloches. Mae hefyd grwpiau sydd, er nad ydyn nhw'n colli allan ar gyllid o reidrwydd, yn methu â chael mynediad at gymorth gofal plant llawn ac felly maen nhw'n dibynnu ar eu teulu neu ddod o hyd i gyllid ychwanegol drwy gronfeydd caledi colegau a phrifysgolion i sicrhau bod modd iddyn nhw barhau yn eu hastudiaethau.

6.3 Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys myfyrwyr gofal iechyd y GIG, y mae eu cymorth gofal plant yn cael ei ariannu ar lefel is na myfyrwyr addysg uwch eraill ar hyn o bryd, unigolion sydd â mwy na dau o blant, pobl sy'n gwneud cyrsiau o bell, pobl sydd mewn rolau gwirfoddol, a phobl sy'n astudio ac sydd â phartner sy'n ennill mwy na'r trothwy i fod yn gymwys am gymorth. Tynnwyd sylw at fyfyrwyr nyrsio fel rhai sy'n cael eu cosbi'n benodol yn eu blwyddyn olaf oherwydd patrwm gweithio eu swyddi, lle mae angen gofal plant mwy hyblyg arnyn nhw, sy'n gallu bod yn ddrutach neu'n anodd cael mynediad ato.

6.4 Er bod colegau Addysg Bellach yn croesawu hyblygrwydd y Gronfa Ariannol wrth Gefn, amlygwyd rhai bylchau, er enghraifft teuluoedd sydd â mwy na dau o blant lle byddai'r cyllid hwnnw ond yn talu am un plentyn, felly byddai rhieni sydd â dau blentyn cyn oed ysgol yn dal i gael anhawster gyda chostau gofal plant.

6.5 Roedd rhanddeiliaid yn y sector Addysg Uwch yn ystyried bod y trothwyon yn rhy isel, yn enwedig ar gyfer y Grant Gofal Plant, gan olygu bod y rhai sydd â phartneriaid cyflogedig yn llai tebygol o allu cael mynediad at gymorth. Amlygodd sawl cynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch nad yw myfyrwyr yn gallu defnyddio'r Grant ar y cyd ag elfen gofal plant y Credydau Treth Gwaith.

6.6 Yn gysylltiedig â'r problemau cymhwysedd hyn mae hygyrchedd a chostau gofal plant, gyda chymhlethdodau o ran prosesau ymgeisio hirfaith (yn enwedig ar gyfer y Grant Gofal Plant). Mae rhywfaint o ddryswch ymhlith dysgwyr a darparwyr ynghylch y cyfyngiad ariannu 85 y cant mewn Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach, gydag adroddiadau bod angen 100 y cant o'r cyllid ar rai grwpiau mwy agored i niwed er mwyn ymgysylltu a pharhau â rhaglenni addysg a chyflogadwyedd.

*Bylchau mewn cymorth rhaglenni cyflogadwyedd*

6.7 Mae cymorth gofal plant yn ganolog i gynllun a darpariaeth rhaglen gyflogadwyedd PaCE, tra bod cynlluniau eraill ar lefel ranbarthol a chenedlaethol yn cynnig cymorth ad hoc mwy cyfyngedig. Mae'r cymorth hwn yn gofyn bod y rhaglenni amrywiol yn cydweithio'n effeithiol drwy brosesau cyfeirio.

6.8 Serch hynny, mae cymhlethdod – ac amrywiaeth – cymhwysedd a meini prawf ariannu yn gallu arwain at rwystrau rhag ymgysylltu a chyfleoedd datblygu ar gyfer cyfranogwyr fel y rhai sy'n symud rhwng rhaglenni neu'n byw mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Gall hyn arwain at rwystrau 'meddal' e.e. hyder a ffydd yn y system, sy'n gallu arwain at grwpiau targed yn colli allan ar gefnogaeth bosib.

6.9 Mae grwpiau sydd o bosib yn colli allan ar gymorth gofal plant drwy raglenni cyflogadwyedd yn cynnwys pobl dlawd sy'n gweithio, y rhai sy'n ymgymryd â gwaith sifftiau, a'r rhai sy'n ymwneud â gweithgarwch gwirfoddol fel llwybr yn ôl at gyflogaeth.

6.10 Felly ystyrir bod angen gwella negeseuon a gwaith hyrwyddo cymorth gofal plant, yn enwedig o ran grwpiau wedi'u tangynrychioli i gefnogi eu hymgysylltiad. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r meini prawf cymhwysedd a'r trothwyon cymhleth a nodwyd uchod – ac a ddangoswyd yn y siart llif yn Atodiad 1.

*Heriau pellach*

6.11 Nid yn unig y mae heriau mewn perthynas â chostau gofal plant, ond hefyd y fiwrocratiaeth, ac adroddir bod darparwyr o'r farn bod y gwaith gweinyddol yn 'feichus' ar adegau. Mae rhai darparwyr gofal plant yn gofyn am flaendal am fis o

ofal, a gall hyn achosi problemau i rieni ym maes Addysg Bellach ac Uwch. Mae hyn yn gallu gwaethygu pan fydd myfyrwyr sy'n rhieni yn mynd trwy'r system glirio neu'n cael cynnig lle ar eu cwrs yn hwyr.

6.12 Adroddwyd am heriau ariannol tebyg ar gyfer y rhai sy'n rhan o raglenni cyflogadwyedd, yn enwedig y rhai sydd heb fod yn y farchnad swyddi am gyfnod hirach ac sy'n wynebu heriau eraill heblaw am ofal plant, fel hyder, diffyg sgiliau cyfredol ac ymwybyddiaeth ddigidol. I lawer o gyfranogwyr rhaglenni, mae trosglwyddo i'r byd gwaith yn gallu bod yn broses hir, ac mae mynediad at ofal plant yn elfen bwysig o gynnal y cynnydd tuag at gyflogaeth. Adroddir am heriau hefyd ar gyfer y rhai sy'n hunangyflogedig a diffyg y ddogfennaeth angenrheidiol i brofi enillion.

6.13 Mae hefyd diffyg argaeledd gofal plant hyblyg a 'chofleidiol', ac mae hyn yn gallu effeithio'n benodol ar rieni sy'n gweithio sifftiau neu ar benwythnosau, neu fyfyrwyr sy'n rhieni ac sydd angen gweithio i gynnal eu hunain drwy addysg. Gall y ffactorau hyn weithredu fel rhwystr arall i'r rhai sy'n dymuno dychwelyd i addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth. Mae heriau eraill sy'n gysylltiedig â photensial unigolion i ddefnyddio'r gofal plant yn cynnwys mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'i amlder, yn enwedig mewn rhai ardaloedd gwledig.

6.14 Ar lefel strategol ehangach, mae diffyg gwaith monitro a gwerthuso cyson i gefnogi penderfyniadau o ran effaith cymorth gofal plant. Dylid mynd i'r afael â hyn wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol i gefnogi datblygiad gwaith a sgiliau lle mae gofal plant yn elfen o'r cymorth, a hefyd i sicrhau bod y Gronfa Ariannol wrth Gefn a'r Grant Gofal Plant yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol i angen.

*Manteision cymorth gofal plant*

6.15 Mae pobl sy'n dychwelyd i'r gwaith wedi elwa ar wahanol fathau o gymorth gofal plant sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwn. Mae'r cymorth hwn wedi galluogi'r rhai sydd ar fin mynd i gyflogaeth i gynyddu eu sgiliau, eu dyheadau, eu hyder a'u llwybrau datblygu, a mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag ymgysylltu. Mae rhaglen fel PaCE, sydd â chymorth gofal plant integredig, wedi galluogi cyfranogwyr i ddychwelyd i gyflogaeth neu ymgymryd â chyfleoedd dysgu pellach a sgiliau, ac

mae elfennau gofal plant rhaglenni eraill hefyd wedi cyfrannu at eu heffaith gadarnhaol gyffredinol.

6.16 Mae cymorth gofal plant wedi gwella dyheadau ac wedi cael gwared â rhwystrau i rieni rhag cael mynediad at addysg uwch a phellach, a datblygu tuag at gyfleoedd gwaith o ansawdd gwell. Adroddir ar lafar bod myfyrwyr yn llai tebygol o adael cyrsiau'n gynnar oherwydd cymorth gofal plant. Mae gofal plant hefyd yn elfen bwysig ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i ddenu myfyrwyr o ystod o grwpiau targed a chynnal eu hymgysylltiad a'u cynnydd. Roedd hyblygrwydd rhaglen y Gronfa Ariannol wrth Gefn a'i haddasrwydd i gyd-destun ac anghenion lleol hefyd yn cael ei ystyried fel mecanwaith cymorth effeithiol.

6.17 Cafwyd tystiolaeth lafar hefyd am effaith gadarnhaol ar blant dysgwyr y grŵp targed; yn benodol o ran gwella cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol, uniaethu gyda dyheadau gyrfaol eu rhieni, a chyfrannu at deuluoedd yn cael eu codi o dlodi.

6.18 Mae cymorth ar gyfer gofal plant drwy'r rhaglenni Addysg Bellach ac Uwch a chyflogadwyedd hefyd yn cysylltu â strategaethau economaidd, sgiliau a threchu tlodi ehangach Llywodraeth Cymru, tuag at gymdeithas mwy teg a ffyniannus gyda chyfleoedd gwaith a dysgu gydol oes teg i ddinasyddion.

*Cymorth yn y dyfodol*

6.19 Gall ymagwedd fwy syml tuag at gymorth ariannu gyfrannu at gydnabod y llwybrau sy'n bodoli rhwng rhaglenni addysg a chyflogadwyedd. Gallai'r ymagwedd hon hefyd gefnogi datblygiad dysgwyr. Felly, mae cymorth gofal plant hyblyg yn hanfodol er mwyn galluogi rhieni i ddatblygu ymhellach ar hyd y llwybr tuag at gyflogaeth drwy ennill cymwysterau.

6.20 Er bod angen ymchwilio ymhellach i sut gellid cefnogi'r rhai sy'n colli allan ar gymorth ariannol yn well, nid argymhellir y dylid ailgynllunio'r Cynnig Gofal Plant i gynnwys myfyrwyr a'r rhai sydd ar fin mynd i gyflogaeth. Yn hytrach, dylai'r cynlluniau sydd eisoes yn gweithio gyda'r grwpiau hyn fynd i'r afael â'r bylchau mewn gofal.

6.21 Mae angen camau i leihau cymhlethdod cynlluniau cymorth gofal plant a gofynion cymhwysedd. Dylid adolygu'r dulliau cyfathrebu gyda dysgwyr i fynd i'r afael â hyrwyddo'r pecyn cymorth i'r grwpiau targed hyn, ac egluro'r cymorth sydd ar gael.

Mae angen gwybodaeth fwy manwl a chlir, fel y nodir yn y safbwyntiau ar y fforymau i rieni a rhanddeiliaid, i fynd i'r afael â'r dryswch ynghylch cymhwysedd a mynediad. Mae hyn yn rhan o broses o feithrin ffydd ac ymgysylltiad drwy godi ymwybyddiaeth ac adolygu dulliau cyfathrebu am gymorth gofal plant i wella ei gyrhaeddiad.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â rhanddeiliaid ym maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd, i sicrhau bod gwybodaeth fanwl a chlir am fynediad a chymhwysedd i bob ffynhonnell o gymorth ariannol ar gyfer gofal plant, gan gynnwys ar lefel ehangach ledled y Deyrnas Unedig.

6.22 Mae cynlluniau amrywiol yn bodoli ar gyfer gwahanol grwpiau rhieni i helpu gydag ariannu gofal plant, ond mae eu cynllun yn amrywio'n sylweddol. Mae gan wahanol gynlluniau (a gwahanol sefydliadau yn achos Sefydliadau Addysg Bellach) eu meini prawf cymhwysedd, trothwyon incwm ar sail profion modd, dulliau ymgeisio, amserlenni a'u lefelau cyllid eu hunain, sy'n ddryslyd i rieni. Byddai ymagwedd fwy cyson a chydlynol tuag at gymhwysedd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r dryswch i rieni.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid ym maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i archwilio opsiynau ar gyfer addasu a phrif ffrydio meini prawf cymhwysedd, trothwyon ar sail profion modd, cyfyngiadau ariannu a dulliau cymorth.

6.23 Mae hefyd angen mynd i'r afael â'r bylchau mewn cymorth gofal plant, gyda mwy o gamau tuag at gysondeb ar gyfer yr holl rieni o grwpiau wedi'u tangynrychioli. Dylai'r ymagwedd hon annog mwy o hyblygrwydd ariannu, fel bod modd darparu 100 y cant o'r cymorth ar gyfer gofal plant lle bo angen, a bod modd talu taliadau gofal plant ymlaen llaw i fyfyrwyr a'r rhai sy'n dychwelyd i weithio. Bydd hyn yn golygu y bydd angen egluro opsiynau i sefydliadau, fel bod modd gwarantu cyllid ar gyfer yr unigolion sydd â'r angen mwyaf, yn hytrach na gofyn i unigolion ddod o hyd i gyllid gofal plant o ystod o ffynonellau.

**Argymhellion:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i symleiddio systemau ymgeisio i bob rhaglen yn ymwneud â gofal plant, gan gyfeirio'n benodol at y Grant Gofal Plant.

Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda sefydliadau addysg a Chyllid Myfyrwyr Cymru i adolygu a fyddai modd cael gwared ar y cyfyngiadau uchafswm cymorth ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf am ofal plant.

6.24 Mae bylchau penodol mewn cymorth sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac felly dylai cymorth gofal plant estynedig gael ei dargedu tuag at y grwpiau hyn. Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr ôl-raddedig, grwpiau sy'n agored i niwed fel ceiswyr lloches a theuluoedd sy'n ennill ychydig dros y trothwy presennol, yn colli allan ar gymorth gofal plant. Mae hyn yn effeithio ar eu potensial i ymgysylltu ag addysg a chyflogaeth, a gellid darparu mwy o gymorth o ganlyniad i hyn.

**Argymhellion:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau i ddarparu cymorth gofal plant ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig drwy'r strwythurau Grant Gofal Plant Addysg Uwch presennol.

Dylai Llywodraeth Cymru dargedu rhagor o gymorth gofal plant at geiswyr lloches, yn enwedig y rhai sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Gellid gwneud hyn drwy raglenni presennol fel y Gronfa Ariannol wrth Gefn, a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE).

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid priodol i ailasesu trothwyon ar gyfer cymorth gofal plant, a sicrhau bod gan y rhai sydd ychydig dros y trothwy gyfle i gael mynediad at gymorth gofal plant.

6.25 Mae angen strwythurau cymorth diwygiedig ar fyfyrwyr gofal iechyd er mwyn sicrhau tegwch o'u cymharu â myfyrwyr addysg uwch eraill. Gellid hefyd ymestyn cymorth hyblyg at fyfyrwyr rhan-amser sydd hefyd mewn cyflogaeth, y rhai sy'n dysgu o bell, rhieni â mwy na dau blentyn, a'r rhai sy'n defnyddio gwirfoddoli fel llwybr yn ôl i gyflogaeth.

**Argymhellion:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio graddau gofal iechyd yn cael tegwch o ran cymorth gofal plant.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid yn y maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i ddatblygu cymorth gofal plant hyblyg ar gyfer grwpiau eraill fel myfyrwyr a gwirfoddolwyr rhan amser neu sy'n dysgu o bell.

6.26 Ar lefel strategol ehangach, mae diffyg gwaith monitro a gwerthuso cyson i gefnogi penderfyniadau o ran effaith cymorth gofal plant. Dylid mynd i'r afael â hyn wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol i gefnogi datblygiad gwaith a sgiliau lle mae gofal plant yn elfen o'r cymorth. Gall hefyd sicrhau bod y Gronfa Ariannol wrth Gefn a'r Grant Gofal Plant yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol i angen.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau monitro a gwerthuso yn gadarn ac yn caniatáu ar gyfer dadansoddi enillion ar fuddsoddiad.

6.27 Mae cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd wedi bod yn agwedd bwysig ar rywfaint o'r cymorth ariannol ar gyfer rhaglenni sy'n cynnig gofal plant i'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith. Er bod hyn wedi achos rhai heriau, gyda mynediad at gymorth weithiau'n ddibynnol ar god post, mae bellach bwlch o ran beth fydd yn disodli'r cyllid hwn, a sut gall gofal plant barhau i fod yn rhan ganolog o raglenni cyflogadwyedd.

6.28 Bydd angen i strategaethau yn y dyfodol ystyried yr opsiynau presennol a'r opsiynau ar ôl Covid hefyd, o ran mynediad a fforddiadwyedd gofal plant a newidiadau i batrymau gweithio ac astudio. Nododd rhanddeiliaid ar draws y sectorau addysg a chyflogadwyedd fod costau gofal plant yn debygol o gynyddu, a bydd yn her i unigolion a sefydliadau dalu am eu hanghenion cymorth yn y dyfodol heb gynnydd cyfatebol mewn cyllid.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio modelau ar gyfer y dyfodol i ddisodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd, sy'n caniatáu ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn cymorth sy'n adlewyrchu costau gofal plant yn ddigonol.


*Crynodeb o'r Argymhellion*

**Argymhellion:**

Dylai Llywodraeth Cymru:

- gydweithio â rhanddeiliaid ym maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i sicrhau bod gwybodaeth fanwl a chlir am fynediad a chymhwysedd i bob ffynhonnell o gymorth ariannol ar gyfer gofal plant, gan gynnwys ar lefel ehangach ledled y Deyrnas Unedig.
- gweithio gyda rhanddeiliaid ym maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i archwilio opsiynau ar gyfer prif ffrydio meini prawf cymhwysedd, trothwyon ar sail profion modd, cyfyngiadau ariannu a dulliau cymorth.
- gweithio gyda phartneriaid i symleiddio systemau ymgeisio i bob rhaglen yn ymwneud â gofal plant, gan gyfeirio'n benodol at y Grant Gofal Plant.
- cydweithio gyda sefydliadau addysg a Chyllid Myfyrwyr Cymru i adolygu a fyddai modd cael gwared ar y cyfyngiadau uchafswm cymorth ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf am ofal plant.
- archwilio opsiynau i ddarparu cymorth gofal plant ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig drwy'r strwythurau Grant Gofal Plant Addysg Uwch presennol.
- anelu rhagor o gymorth gofal plant at geiswyr lloches, yn enwedig y rhai sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Gellid gwneud hyn drwy raglenni presennol fel y Gronfa Ariannol wrth Gefn, a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE).
- gweithio gyda rhanddeiliaid priodol i ailasesu trothwyon ar gyfer cymorth gofal plant, a sicrhau bod gan y rhai sydd ychydig dros y trothwy gyfle i gael mynediad at gymorth gofal plant.
- gweithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio gradd mewn gofal iechyd yn cael tegwch o ran cymorth gofal plant.
- gweithio gyda phartneriaid yn y maes Addysg Bellach ac Uwch a rhaglenni cyflogadwyedd i ddatblygu cymorth gofal plant hyblyg ar gyfer grwpiau eraill fel myfyrwyr a gwirfoddolwyr rhan amser neu sy'n dysgu o bell.
- sicrhau bod systemau monitro a gwerthuso yn gadarn ac yn caniatáu ar gyfer dadansoddi enillion ar fuddsoddiad
- archwilio modelau ar gyfer y dyfodol i ddisodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd, sy'n caniatáu ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn cymorth sy'n adlewyrchu costau gofal plant yn ddigonol.

## Atodiad 1: Siart Llif o'r cyllid gofal plant sydd ar gael



## Atodiad 2: Ffynonellau cymorth i fyfyrwyr a rhieni mewn hyfforddiant neu wrth ddychwelyd i'r gwaith

| **Myfyrwyr** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynllun** | **Cymhwysedd** | **Lefel y Cymorth** | **Cyfyngiad Incwm/Prawf Modd** |
| Y Grant Gofal Plant | Myfyrwyr Addysg Uwch israddedig, llawn amser a rhan amser. | Hyd at 85% o'u costau gofal plant (uchafswm o £174.22 yr wythnos am un plentyn) yn dibynnu ar incwm y cartref | Y swm yn dibynnu ar incwm y cartref; ar sail profion modd ar raddfa symudol. |
| Lwfans Dysgu i Rieni | Myfyrwyr Addysg Uwch israddedig, llawn amser a rhan amser. Gall myfyrwyr ond wneud cais am y Lwfans Dysgu i Rieni os oes ganddyn nhw un plentyn neu fwy sy'n dibynnu arnyn nhw'n ariannol, waeth beth yw eu hoedran. | Uchafswm o £1,766 y flwyddyn | Mae'r swm yn dibynnu ar incwm y cartref |
| Lwfans Gofal Plant Bwrsariaeth y GIG | Myfyrwyr gofal iechyd Addysg Uwch sy'n derbyn bwrsariaeth y GIG | Hyd at 85% o'r costau gofal plant (uchafswm net o £128.78 yr wythnos ar gyfer un plentyn a £209.95 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy). | Ar sail prawf modd |
| Elfen gofal plant o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF) | Dysgwyr Addysg Bellach; cwrs amser llawn fel arfer | Amrywio rhwng colegau – enghraifft Coleg Caerdydd a'r Fro: £35 y dydd ar gyfer tri diwrnod; Pen-y-bont ar Ogwr – hyd at 80% o ffioedd; Gwent 90%, uchafswm o £40 | Oes. Amrywio rhwng colegau – mae llawer yn cyfateb cyfyngiad Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, sef incwm cartref o £18370. |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru | Dysgwyr Addysg Bellach, rhaid i'r cwrs fod yn gymwys i gael cymorth Addysg Bellach Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. | Hyd at £1,500 ar gyfer cwrs amser llawn neu hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan amser a delir mewn rhandaliadau unwaith y tymor, yn dibynnu ar incwm cartref y dysgwr. | Grant o hyd at £1500 wedi'i asesu yn ôl incwm; rhaid i incwm y cartref fod yn £18,370 neu lai |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg | Dysgwyr Addysg Bellach, myfyrwyr rhwng 16 a 18 oed sy'n aros mewn addysg ôl 16 oed. | Lwfans wythnosol o £30 yr wythnos | Grant wedi'i asesu ar sail incwm yn seiliedig ar incwm cartref llai na £20,817. |
| Credyd Cynhwysol (Adran Gwaith a Phensiynau'r Deyrnas Unedig) | *Nid* yw Credyd Cynhwysol ar gael ar gyfer myfyrwyr amser llawn fel arfer. Efallai y bydd rhieni'n gallu cael Credyd Cynhwysol (ac elfen gofal plant Credyd Cynhwysol) os ydyn nhw mewn gwaith cyflogedig ac yn astudio'n rhan amser. | Yn seiliedig ar amgylchiadau | Yn dibynnu ar enillion ac amgylchiadau. |
| **Rhieni mewn hyfforddiant neu'n paratoi i ddychwelyd i'r gwaith** | | | |
| **Cynllun** | **Cymhwysedd** | **Lefel y Cymorth** | **Cyfyngiad Incwm/Prawf Modd** |
| Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) | Wedi'i leoli y tu allan i ardaloedd Cymunedau am Waith.<br>Rhieni rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant a rhieni sy'n economaidd anweithgar 25+ oed. | Cyllid ar gael ar gyfer gofal plant hyd at uchafswm o £60 y dydd ar gyfer un plentyn ac uchafswm o £100 ar gyfer mwy nag un plentyn. | Nid yw ar sail profion modd, ac nid oes cyfyngiad i lefel y cymorth cyffredinol. |
| Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy | Mae Cymunedau am Waith yn gweithredu yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gynt.<br>Rhieni rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant a rhieni sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn hirdymor 25+ oed sydd â rhwystrau cymhleth rhag bod mewn cyflogaeth.<br>Darperir Cymunedau am Waith a Mwy yn y 22 awdurdod lleol i unigolion sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi, nad ydynt yn gymwys am Gymunedau am Waith, PaCE, na darpariaeth gyflogadwyedd ranbarthol arall | Cyllid ar gael ar gyfer gofal plant yn ystod cyfweliadau swydd, cyrsiau byr neu leoliadau. Gall hefyd ariannu gofal plant am wythnosau cyntaf swydd newydd. | Mae cyfyngiad i'r gefnogaeth gychwynnol o oddeutu £500 y pen, gyda dyfarniadau uwch wrth aros am gymeradwyaeth bellach gan Lywodraeth Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pontydd i Waith 2 | Pobl sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn siroedd Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Thorfaen. 25+ oed | Rhywfaint o gyllid cyfyngedig ar gael i helpu gyda gofal plant yn ystod cyfweliadau swydd / hyfforddiant. | Cyfranogwyr yn cael eu cyfeirio at PaCE ar gyfer anghenion cymorth gofal plant mwy sylweddol |
| Taith i Waith | Di-waith hirdymor neu Economaidd Anweithgar;<br>25 oed neu'n hŷn;<br>Mae'r prosiect yn gweithio mewn ardaloedd yng Nghaerdydd, Casnewydd a Sir Fynyw nad ydynt yn rhan o Gymunedau yn Gyntaf | Rhywfaint o gyllid cyfyngedig ar gael i helpu gyda gofal plant yn ystod cyfweliadau swydd / lleoliadau gwaith. | Cyllid ar gael i gefnogi anghenion cyfranogwyr ac mae'n gallu talu am ofal plant; Cyfranogwyr yn cael eu cyfeirio at PaCE ar gyfer anghenion cymorth gofal plant mwy sylweddol. |
| Credyd Cynhwysol | Gall rhieni hawlio costau gofal plant o dan Gredyd Cynhwysol os ydyn nhw mewn gwaith cyflogedig, neu os ydynt wedi derbyn cynnig gwaith cyflogedig: gall rhieni sydd wedi derbyn cynnig swydd hawlio costau gofal plant am y mis cyn dechrau gweithio | Gall rhieni hawlio hyd at 85% o gostau gofal plant y maent eisoes wedi talu amdanynt. | Yn dibynnu ar enillion ac amgylchiadau. |
| Y Gronfa Cymorth Hyblyg | Cronfa a gynigir yn ôl disgresiwn ymgynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith yw'r Gronfa Cymorth Hyblyg, sy'n rhoi cymorth gyda chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dod o hyd i swydd, gan gynnwys costau gofal plant. | Yn ôl disgresiwn y Ganolfan Waith. | Yn ôl disgresiwn y Ganolfan Waith. |

## Atodiad 3: Methodoleg

*Trosolwg o'r fethodoleg*

6.29 Defnyddiwyd dulliau cymysg ar gyfer yr adolygiad, a oedd yn cynnwys ymchwil ddesg yn mapio ffynonellau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant, a gasglwyd o ddata oedd ar gael yn gyhoeddus ar-lein, a chyfweliadau ffôn gydag arweinwyr rhaglenni cenedlaethol, Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, a gweinyddwyr rhaglenni cyflogaeth i nodi gwybodaeth ychwanegol neu ymyriadau ychwanegol posib gyda'r nod o gefnogi rhieni yn y grŵp targed (myfyrwyr, dysgwyr, a rhieni sy'n dychwelyd i'r gwaith.)

*Mapio'r cymorth sydd ar gael i rieni yng Nghymru*

6.30 Cynhaliwyd ymchwil ddesg i ffynonellau posib ar gyfer cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gofal plant yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach (os yw'n berthnasol i ddinasyddion Cymru). Rhoddodd hyn gyd-destun o'r ddarpariaeth bresennol, a hefyd dadansoddiad o'r bylchau mewn darpariaeth sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant, neu wrth ddychwelyd i gyflogaeth.

*Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol arweinwyr rhaglenni cenedlaethol*

6.31 Cynhaliwyd saith cyfweliad gydag arweinwyr rhaglenni a chymorth Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar gasglu gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â rhaglenni a oedd yn cefnogi'r grwpiau targed. Roedd y cyfweliadau hefyd yn gofyn i arweinwyr prosiectau gyfeirio'r tîm ymchwil at ragor o wybodaeth yn ymwneud â'u rhaglen, ynghyd â mentrau tebyg eraill roedden nhw'n ymwybodol ohonynt os oedd hynny'n berthnasol.

6.32 Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i'r arweinwyr rhaglenni yn ymwneud â chwestiynau ymchwil penodol hefyd, gan gynnwys:

- Pa mor fuddiol yw'r cymorth sydd ar gael ar gyfer gofal plant i rieni sy'n ceisio dychwelyd i'r gwaith, a pha broblemau penodol y mae rhieni yn eu hwynebu?
- A oes unrhyw grwpiau o unigolion sydd ar hyn o bryd yn colli allan ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant a fyddai'n cael budd o ymestyn y Cynnig Gofal Plant?

- Os felly, pa ryngweithiadau neu ddyblygiadau allai ddigwydd rhwng rhaglenni presennol?

*Ymchwil gyd-destunol gyda rhieni*

6.33 Cynhaliwyd ymchwil ychwanegol yn defnyddio fforymau ar-lein i archwilio materion a godwyd gan rieni yn y grwpiau targed.

6.34 Cynhaliwyd yr ymchwil hon gan ddefnyddio canllawiau ymchwil cyfryngau cymdeithasol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth fel man cychwyn. Er bod y canllawiau hyn wedi'u paratoi yng nghyd-destun y cyfryngau cymdeithasol, yn hytrach na llwyfannau ar-lein fel y cyfryw, mae'r un egwyddorion yn berthnasol, a rhoddodd yr ymchwil ystyriaeth i'r cyfyngiadau, yn benodol y ffaith nad yw defnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol yn cynrychioli poblogaethau cyfan ac 'er bod modd arsylwi a dadansoddi rhyngweithiadau, mae'n bosib bod ffeithiau pwysig neu gyd-destun ar goll'.

6.35 Serch hynny, mae cynnal ymchwil ansoddol gan ddefnyddio fforymau ar-lein yn ddull sy'n gallu darparu adnodd cyfoethog o ddata cynradd. Yn aml caiff ei ddefnyddio fel dull er mwyn ymchwilio i drafodaethau iechyd ymhlith y cyhoedd: er enghraifft, daeth un astudiaeth ddiweddar ar ddefnydd cleifion o atal strôc i'r casgliad bod y dull 'yn gallu cynnig mewnwelediadau ychwanegol o gymharu â chyfweliadau'.[2]

6.36 Nodwyd tri fforwm fel fforymau dilys a phoblogaidd i rieni fel rhan o ymchwil Arad – Student Room, Money Saving Expert a Mumsnet. Dadansoddwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r fforymau hyn, a'i chodio ar wahân mewn dogfen Excel, gyda'r prif themâu wedi'u nodi fel rhan o'r dadansoddiad. Yn y dadansoddiad o negeseuon fforwm, tynnwyd unrhyw wybodaeth y gellid adnabod unigolion yn bersonol ohoni cyn i brif themâu pob edefyn a gipiwyd gael eu codio a'u dadansoddi.

6.37 Wrth gynnal yr ymchwil gyd-destunol hon, gosodwyd paramedrau er mwyn hidlo'r wybodaeth a ddadansoddir. Roedd y paramedrau hyn yn cynnwys defnyddio hidlydd manwl yn ystod pob chwiliad, gyda dyddiadau wedi'u cyfyngu rhwng 1 Medi 2019 a 1 Chwefror 2020. Dewiswyd y dyddiadau hyn oherwydd y llu o negeseuon am bandemig Covid-19 ar ôl mis Chwefror 2020.

6.38 Roedd paramedrau eraill a ddefnyddiwyd fel teclynnau hidlo yn cynnwys gosod termau allweddol penodol i'r bar chwilio, roedd y geiriau hyn yn cynnwys 'plentyn', 'gofal', 'gofal plant', 'ariannu', 'cyllid myfyrwyr', a 'cyllid grant'. Ar un fforwm roedd modd hidlo'r sgyrsiau a'r trafodaethau yn ôl pynciau rhagnodedig y wefan, roedd y rhain yn cynnwys 'dychwelyd i weithio', 'addysg bellach', 'addysg uwch' ac 'addysg'.

*Cyfweliadau ffôn gyda Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, a gweinyddwyr rhaglenni cyflogaeth*

6.39 Nodwyd mai'r prif ddull o gasglu data ar nifer y myfyrwyr a rhieni sydd â dibynyddion a/neu gyfrifoldebau gofal plant oedd ymgynghoriadau ffôn a cheisiadau am ddata cysylltiedig gan sefydliadau a gweinyddwyr rhaglenni cyflogaeth.

6.40 Ymgynghorwyd â Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, a rhaglenni cyflogaeth eraill, gyda swyddogion lles myfyrwyr / cymorth myfyrwyr wedi'u nodi fel y mwyaf tebygol o fod y rhanddeiliaid mwyaf perthnasol i siarad gyda nhw am yr adolygiad.

6.41 Cynhaliwyd cyfweliadau yn y gobaith o wireddu dau ddiben – archwilio a deall pa ddata a gedwir ar nifer y rhieni a'r nifer sy'n defnyddio cymorth, ac yn ail, trafodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddeall pa gefnogaeth sydd ar gael a'r problemau y mae'r grŵp targed yn eu hwynebu.

6.42 Trefnwyd cyfweliadau ffôn ac fe'u cynhaliwyd gyda 47 o unigolion yn ystod 44 cyfweliad o sectorau amrywiol yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, a dychwelyd i'r gwaith. Roedd y cyfweliadau hyn yn cynnwys:

- Wyth cyfweliad gyda naw cynrychiolydd o Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys rheolwyr cyngor a chyllid myfyrwyr, cyfarwyddwyr, ac ymgynghorwyr cymorth myfyrwyr;
- Saith cyfweliad gyda saith cynrychiolydd o Sefydliadau Addysg Bellach, gan gynnwys rheolwyr Cronfa Ariannol wrth Gefn, rheolwyr Gwasanaethau Dysgu, swyddogion ac ymgynghorwyr llesiant myfyrwyr, a rheolwyr meithrinfeydd campws;
- Wyth cyfweliad gydag ymgynghorwyr Rhieni, Plant a Chyflogaeth (PaCE) a rheolwyr gweithredu;

- Wyth cyfweliad gyda staff Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, gan gynnwys Rheolwyr Perfformiad ac Ansawdd, Rheolwyr Gweithredu a Swyddogion Cyfranogiad ac Ymgysylltu;
- Dau gyfweliad gyda chynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr;
- Un cyfweliad gyda thri chynrychiolydd o'r tîm gwasanaethau gwybodaeth cyllid a'r tîm polisi yn Cyllid Myfyrwyr Cymru;
- Un cyfweliad gyda chynrychiolydd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd;
- Un cyfweliad gyda chynrychiolydd rhaglen Pontydd i Waith;
- Un cyfweliad gyda Rheolwr Rhanbarthol Partneriaeth a oedd yn gyfrifol am bedwar prosiect cymunedol.

6.43 Tynnwyd y prif sampl o wybodaeth a gafwyd ar-lein o wefannau rhaglenni cyflogaeth, Sefydliadau Addysg Uwch, a Sefydliadau Addysg Bellach. Anfonwyd e-byst cychwynnol at gyfeiriadau e-bost cyffredinol Gwasanaethau Myfyrwyr, gyda chais bod y neges e-bost yn cael ei blaenyrru at yr unigolion mwyaf perthnasol, a lle bo'n bosib at unigolion perthnasol a nodwyd drwy wefannau Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a rhaglenni cyflogaeth. Anfonwyd negeseuon atgoffa wythnos ar ôl y cyswllt cyntaf, gydag unigolion ychwanegol wedi'u cynnwys yn yr edefyn e-bost er mwyn i wybodaeth am yr adolygiad gael ei hanfon at randdeiliaid perthnasol.

## Atodiad 4: Canllawiau Holi

### Canllaw Holi A: Cwestiynau i arweinwyr rhaglenni cenedlaethol

Cyflwyniadau ac esbonio nodau'r astudiaeth ynghyd â diogelu data

- Cwestiynau cefndir ar rôl a chyfrifoldebau a chysylltiadau â'r rhaglen

- Pa faterion penodol sy'n wynebu rhieni yn y grwpiau targed (mewn addysg neu hyfforddiant neu sy'n ceisio dychwelyd i'r gwaith) sy'n nodi ac yn cael mynediad at ofal plant?

  *E.e. diffyg ymwybyddiaeth o opsiynau, trafnidiaeth, argaeledd yn lleol, cyllid, cymhwysedd*

- Sut mae eich rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain drwy ei dyluniad a'i darpariaeth?

*A oes unrhyw faterion penodol neu grwpiau targed y mae eich rhaglen wedi canolbwyntio arnynt? Os felly, sut a pham y nodwyd y rhain?*

*Beth fu effaith y rhaglen a pha mor rhan annatod yw elfen gofal plant hyn?*

- Sut mae eich rhaglen yn ategu rhaglenni cymorth gofal plant eraill a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru?

*e.e. Trechu Tlodi, cefnogi llwybrau i gyflogaeth*

- Pa ddata ydych chi'n ei gasglu ar y rhai sy'n cael cymorth?

*Beth yw'r tueddiadau allweddol o ran defnyddio, demograffeg, lefelau'r cyllid sydd ei angen, daearyddiaeth ac ati? A yw'r data hwn ar gael i'r cyhoedd / a ellir ei rannu â ni?*

- Beth fu'r manteision i rieni o gymryd rhan yn eich rhaglen – pa dystiolaeth sydd gennych ar gyfer hyn?

- Pa waith monitro ydych chi'n ei wneud ar effaith a chyrhaeddiad eich rhaglen? Sut mae'n dylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth barhaus?

*Gwerthuso ac ati. Ble mae'r bylchau o ran casglu a monitro data – sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain?*

- A ddylid ymestyn y Cynnig Gofal Plant presennol i'r rhai nad ydynt eto mewn cyflogaeth ond sydd mewn addysg a hyfforddiant?

*Os oes, pa ryngweithio neu ddyblygu a allai ddigwydd rhwng rhaglenni sy'n bodoli eisoes? Beth fyddai'r manteision disgwyliedig i'r grwpiau targed?*

*Os na, pam ddim a sut arall y gellid cefnogi'r grwpiau targed hyn yn well?*

- A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer tîm Arad ynghylch ymchwil / gwerthuso defnyddiol eraill ac unrhyw raglenni cenedlaethol eraill ledled y DU?

## Canllaw Holi B: Cwestiynau ar gyfer arweinwyr rhaglenni Cyflogadwyedd/Parodrwydd i Weithio

**Diben y cyfweliadau**
Bydd y cyfweliadau hyn yn cyfrannu at ddeall
- pa gymorth sydd ar gael (ac i bwy; pa feini prawf cymhwysedd; lefel y cymorth ariannol ac ati)
- y bylchau, os o gwbl, mewn cymorth ariannol i rieni.

*Noder*: ni fydd pob cwestiwn yn addas ar gyfer pob cyfwelai.

**Cyfweleion:**
Cyflogadwyedd/Parodrwydd i weithio Arweinwyr/gweinyddwyr y rhaglen

### Cefndir a rôl

1. **Beth yw eich rôl yn (sefydliad)?**
    - Rôl a chyfrifoldebau; llinell adrodd.
    - A allwch amlinellu eich ymwneud â darparu cymorth i'r rhai sy'n ceisio dod i mewn i gyflogaeth neu ddychwelyd i gyflogaeth?
    - A allwch amlinellu eich ymwneud â darparu cymorth ariannol ar gyfer gofal plant fel rhan o'r cymorth hwn?

### Cymorth ar gael

2. Pa gymorth ariannol ar gyfer gofal plant sydd ar gael i'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith/ceiswyr gwaith fel rhan o'ch rhaglen? (Noder – i ychwanegu at y daenlen)

a) Ar ba ffurf y mae'r cymorth yn ei gymryd (cymhorthdal, grant, bwrsariaeth, disgownt ar le gofal plant ac ati)

b) Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?

c) Sut mae'r rhaglen yn cael ei hyrwyddo ac i bwy? A oes unrhyw fylchau yn y dyrchafiad hwn e.e. diffyg defnydd- grwpiau penodol?

d) Sut a phryd mae'r unigolyn yn gwneud cais am y cymorth?

e) Lefel y cymorth / Uchafswm y cymorth sydd ar gael / hyd

f) Niferoedd sy'n manteisio ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf

g) Cyfanswm maint y gronfa a ffynhonnell y cronfeydd – pa ganran y mae gofal plant yn ei ffurfio o hyn?

## Cyd - destun

3. Pa faterion/rhwystrau penodol sy'n wynebu unigolion sy'n chwilio am waith i nodi a chael mynediad at ofal plant?

   *E.e. daearyddiaeth, mynediad i ofal plant, diffyg ymwybyddiaeth o opsiynau, trafnidiaeth – cyhoeddus neu bersonol, argaeledd yn lleol, cyllid, cymhwysedd, grwpiau penodol (e.e. y rhai sy'n cael eu hailgysylltu â chyflogaeth neu eisoes mewn gwaith dros dro neu gontractiol)*

4. Sut mae eich rhaglen(au) yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy gefnogi'r grwpiau targed?

*A oes unrhyw faterion penodol neu grwpiau targed y mae eich rhaglen wedi canolbwyntio arnynt? Os felly, sut a pham y nodwyd y rhain?*

5. A oes cysylltiadau rhwng tîm eich rhaglen ac unrhyw raglenni cymorth gofal plant/rhaglenni cyflogadwyedd eraill?

a) e.e. darparwyr lleoedd gofal plant â chymhorthdal?

b) Sut mae'r rhain yn ategu eich rhaglen e.e. *a all unigolion symud ymlaen o un rhaglen i'r llall neu* gyfuno cymorth i symud ymhellach ar hyd llwybrau at gyflogaeth?

6. Beth fu'r manteision i rieni sy'n cael cymorth gofal plant o'ch rhaglen – pa dystiolaeth sydd gennych ar gyfer hyn?

**Data (os yw'n berthnasol)**

7. A ydych yn cadw data ar nifer y rhieni yn y grŵp targed (dychwelwyr gwaith/ceiswyr gwaith sydd â gofynion gofal plant)?

*Beth yw'r tueddiadau allweddol o ran y nifer sy'n manteisio ar y cyllid, demograffeg, lefelau'r cyllid sydd ei angen, daearyddiaeth ac ati? Na. o unigolion â phlant dibynnol ar eich rhaglen, gan gynnwys y rhai o dan 25 oed.*

*A yw'r data hwn ar gael i'r cyhoedd / a ellir ei rannu â ni?*

8. A yw eich rhaglen yn monitro effaith a chyrhaeddiad y cymorth gofal plant a ddarperir? A yw hyn yn rhan o werthuso rhaglenni'n ehangach? Os felly, a yw'n dylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth barhaus?

*Gwerthuso ac ati. Ble mae'r bylchau o ran casglu a monitro data – sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain?*

**Edrych i'r dyfodol.**

9. *Esbonio'r Cynnig Gofal Plant a'r meini prawf cyfredol.* A oes grwpiau o unigolion sydd ar hyn o bryd yn colli allan ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant a fyddai'n elwa o unrhyw estyniad i'r Cynnig Gofal Plant?

*Os oes, pa ryngweithio neu ddyblygu a allai ddigwydd rhwng rhaglenni sy'n bodoli eisoes?*

*A oes materion yn ymwneud â mynediad parhaus i CC a buddion eraill?*

*Beth fyddai'r manteision disgwyliedig i'r grwpiau targed?*

*Os na, pam ddim a sut arall y gellid cefnogi'r grwpiau targed hyn yn well?*

10. A ydych yn ymwybodol o unrhyw heriau y gallai'r grwpiau targed eu hwynebu yn y dyfodol o ran cael gafael ar ofal plant yn y dyfodol?

## Canllaw Holi C: Cwestiynau i randdeiliaid sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch

**Diben y cyfweliadau**
Bydd y cyfweliadau hyn yn cyfrannu at ddeall

- pa gymorth sydd ar gael (ac i bwy; pa feini prawf cymhwysedd; lefel y cymorth ariannol ac ati)
- y bylchau, os o gwbl, mewn cymorth ariannol i rieni.

*Noder*: ni fydd pob cwestiwn yn addas ar gyfer pob cyfwelai.

**Cyfweleion:**
Sefydliadau AB ac AU'

- Tîm lles dysgwyr a/neu
- Tîm cymorth ariannol

### Cefndir rôl

1) Beth yw eich rôl yn [enw'ch sefydliad]?
   - Rôl a chyfrifoldebau; llinell adrodd.
   - Allwch chi amlinellu eich ymwneud â darparu cymorth ariannol i ddysgwyr yn gyffredinol?
   - A allwch amlinellu eich ymwneud â darparu cymorth ariannol ar gyfer gofal plant?

### Cymorth ar gael

2) Pa gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gofal plant darbodus yn [enw'r sefydliad]? (Noder – i ychwanegu at y daenlen)
   - Ar ba ffurf y mae'r cymorth yn ei gymryd (cymhorthdal, grant, bwrsariaeth, disgownt ar le gofal plant ac ati)
   - Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?
   - Sut a phryd mae'r dysgwr yn gwneud cais am y cymorth?
   - Lefel y cymorth / Uchafswm y cymorth sydd ar gael

- Niferoedd sy'n manteisio ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Cyfanswm maint y gronfa a ffynhonnell y cronfeydd

## Cyd-destun

3) Pa faterion/rhwystrau penodol y mae rhieni sy'n fyfyrwyr yn eu hwynebu wrth nodi a chael mynediad at ofal plant?

*E.e. daearyddiaeth, mynediad i ofal plant, diffyg ymwybyddiaeth o opsiynau, trafnidiaeth – cyhoeddus neu bersonol, argaeledd yn lleol, cyllid, cymhwysedd, grwpiau penodol (e.e. y rhai sy'n chwilio am addysg; y rhai ar gyrsiau penodol)*

4) Sut mae eich sefydliad yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy gefnogi'r grwpiau targed?

*A oes unrhyw faterion penodol neu grwpiau targed y mae eich rhaglen wedi canolbwyntio arnynt? Os felly, sut a pham y nodwyd y rhain?*

5) A oes cysylltiadau rhwng eich tîm/sefydliad ac unrhyw raglenni cymorth gofal plant allanol?
   a) Pa raglenni / pa gysylltiadau?
   b) A oes unrhyw raglenni sefydliadol yn ategu rhaglenni cymorth gofal plant allanol eraill?

6) Beth fu'r manteision i rieni sy'n cael cymorth gofal plant gan eich sefydliad a rhaglenni allanol tebyg eraill – pa dystiolaeth sydd gennych ar gyfer hyn?

7) Pa mor effeithiol ydych chi'n teimlo yw'r ystod bresennol o ddarpariaeth i rieni o fewn y grŵp targed gael y cymorth sydd ei angen i gael mynediad at addysg, hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gwaith?

### Data (os yw'n berthnasol)

8) Ydych chi'n cadw data ar nifer y rhieni o fewn y grŵp targed (ymgeiswyr / myfyrwyr presennol sydd â gofynion gofal plant)?

*Beth yw'r tueddiadau allweddol o ran y nifer sy'n manteisio ar y cyllid, demograffeg, lefelau'r cyllid sydd ei angen, daearyddiaeth ac ati? Na. o fyfyrwyr â phlant dibynnol yn eich sefydliad, nifer y myfyrwyr o dan 25 oed sydd â phlant dibynnol, canran cyfanswm cynlluniau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a wariwyd ar ofal plant, (a pha ganran o FCF a hawliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf / yn yr un modd â rhaglenni tebyg eraill.*

*A yw'r data hwn ar gael i'r cyhoedd / a ellir ei rannu â ni?*

9) A yw'r sefydliad yn monitro effaith a chyrhaeddiad y cymorth gofal plant a ddarperir? Os felly, a yw'n dylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth barhaus?

*Gwerthuso ac ati. Ble mae'r bylchau o ran casglu a monitro data – sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain?*

10) A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer tîm Arad ynghylch ymchwil / gwerthuso defnyddiol eraill ac unrhyw raglenni cenedlaethol eraill ledled y DU?

**Edrych i'r dyfodol.**

11) Esbonio'r Cynnig Gofal Plant a'r meini prawf cyfredol. A oes grwpiau o ddysgwyr sydd ar hyn o bryd yn colli allan ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant a fyddai'n elwa o unrhyw estyniad i'r Cynnig Gofal Plant?

*Os oes, pa ryngweithio neu ddyblygu a allai ddigwydd rhwng rhaglenni sy'n bodoli eisoes? Beth fyddai'r manteision disgwyliedig i'r grwpiau targed?*

*Os na, pam ddim a sut arall y gellid cefnogi'r grwpiau targed hyn yn well?*

12) Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw heriau yn y dyfodol y gallai'r grwpiau targed (rhieni myfyrwyr presennol, darpar fyfyrwyr) eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal plant mewn AB / AU?

**Atodiad 5: Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer cynghorwyr PaCE a gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch**

## Gwerthusiad o addasrwydd y Cynnig Gofal Plant i Gymru i gynnwys rhieni mewn hyfforddiant, addysg ac ar fin dychwelyd i'r gwaith

---

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu *Arad* i werthuso addasrwydd y Cynnig Gofal Plant cyfredol i Gymru i gynnwys rhieni mewn hyfforddiant, addysg ac ar fin dychwelyd i'r gwaith.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, mae *Arad* yn casglu gwybodaeth trwy gyfweliadau ag arweinwyr Rhaglenni Llywodraeth Cymru, cynghorwyr PaCE a gwasanaethau cymorth myfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Pwrpas y cyfweliadau hyn yw casglu barn ar y graddau y mae rhieni sydd mewn hyfforddiant, addysg ac ar fin dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cefnogi gyda gofal plant fel rhan o'r cynlluniau presennol.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru, ac o bosibl cyhoeddiadau eraill, gan *Arad* a Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru, ac o bosibl cyhoeddiadau eraill, gan *Arad* a Llywodraeth Cymru.

Mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer y gwerthusiad hwn yn *Arad* yw Sioned Lewis.
Ffôn: 029 2044 0552
E-bost: sioned@arad.wales

# Gwerthusiad o gymhwysedd y Cynnig Gofal Plant i Gymru i gynnwys rhieni mewn hyfforddiant, addysg ac ar fin dychwelyd i'r gwaith

## Pa ddata personol sydd gennym ni a ble rydyn ni'n cael y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) fel "unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei hadnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at ddynodwr".

Yn achos staff addysg bellach neu staff addysg uwch, cafwyd eich manylion cyswllt o wefannau eich sefydliadau priodol, neu fe'u rhannwyd gan unigolion yn y lleoliadau hynny yn dilyn e-bost a anfonwyd gan *Arad* i gyfeiriad e-bost canolog.

Yn achos staff Llywodraeth Cymru a DWP, rhannwyd eich manylion cyswllt gan swyddogion Llywodraeth Cymru o cyfeirlyfrau a ddelir yn ganolog.

Nid yw'r cyfweliadau'n gofyn am gasglu unrhyw ddata personol ychwanegol. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy a ddarperir yn cael ei dileu a bydd y canfyddiadau'n cael eu gwneud yn anhysbys.

Os byddwch yn codi ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yn ei ddileu o'r data ymchwil.

## Beth yw'r sylfaen gyfreithlon ar gyfer defnyddio'ch data?

Ein sylfaen gyhoeddus ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae gwerthusiadau fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir ei gweithredu am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i *Arad* gan Lywodraeth Cymru bob amser yn cael ei storio'n ddiogel. Dim ond nifer gyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y gwerthusiad sy'n gallu defnyddio'r data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd ymchwilwyr cymdeithasol o *Arad* yn defnyddio manylion cyswllt cyfranogwyr.

Mae *Arad* wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data. Os bydd amheuaeth o dorri, bydd *Arad* yn adrodd hyn i Lywodraeth Cymru a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny. Mae gan *Arad* ardystiad Cyber Essentials.

Bydd yr holl ddata a gesglir trwy'r gwerthusiad hwn yn cael ei gadw mewn fformat anhysbys. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth y gellir ei hadnabod yn cael ei dileu.

Bydd *Arad* yn defnyddio'r data i gynhyrchu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i nodi cyfranogwyr unigol.

### Pa mor hir ydyn ni'n cadw'ch data personol?

Bydd *Arad* yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad yw eisoes wedi'i ddileu yn cael ei ddileu tri mis ar ôl i'r contract ddod i ben. Bydd *Arad* yn darparu fersiwn ddienw o'r data i Lywodraeth Cymru na fydd yn cynnwys gwybodaeth a allai eich adnabod chi.

### Hawliau unigol

O dan GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn, mae gennych hawl:

- i weld copi o'ch data eich hun;
- i ofyn inni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hynny;
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau) ac
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheolydd annibynnol ar ddiogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Sir Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

### Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru neu'n dymuno arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, cysylltwch â:

Roisin O'Brien (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol, Llywodraeth Cymru)

Ffôn: 0300 025 8528

E-bost: Roisin.OBrien@gov.wales

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.